Erthygl 1 – Y Cyfansoddiad

1.01 Pwerau'r Cyngor

Bydd y Cyngor yn arfer ei holl bwerau ac yn cyflawni ei holl ddyletswyddau yn unol â'r gyfraith a'r Cyfansoddiad hwn.

1.02 Y Cyfansoddiad

Y Cyfansoddiad hwn, a'i holl atodiadau, yw Cyfansoddiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Diben y Cyfansoddiad yw:

1. galluogi'r Cyngor i roi arweinyddiaeth eglur i'r gymuned mewn partneriaeth â dinasyddion, busnesau a sefydliadau eraill;
2. cynorthwyo dinasyddion i gymryd rhan weithredol yn y broses o wneud penderfyniadau yn yr awdurdod lleol;
3. helpu cynghorwyr i gynrychioli eu hetholwyr yn fwy effeithiol;
4. sicrhau bod modd gwneud penderfyniadau'n effeithlon ac yn effeithiol;
5. creu dull grymus ac effeithiol o ddal penderfynwyr i gyfrif yn gyhoeddus;
6. sicrhau na fydd neb yn adolygu nac yn craffu ar benderfyniad y mae wedi ymwneud yn uniongyrchol ag ef;
7. sicrhau bod y rheiny sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau yn adnabyddus i bobl leol a'u bod yn esbonio'r rhesymau dros benderfyniadau; a
8. darparu dull o wella'r ffordd y darperir gwasanaethau i'r gymuned trwy'r defnydd mwyaf effeithiol a chydgysylltiedig o wasanaethau'r Cyngor a phrosesau'r Cyngor o wneud penderfyniadau.

1.03 Dehongli ac Adolygu'r Cyfansoddiad

Os yw'r Cyfansoddiad yn caniatáu i'r Cyngor ddewis o blith gwahanol ffyrdd o weithredu, bydd y Cyngor bob amser yn dewis yr opsiwn sydd, yn ei dyb ef, yn agosaf i'r dibenion a nodir uchod.

Bydd y Cyngor yn monitro ac yn gwerthuso gweithrediad y Cyfansoddiad fel y'i nodir yn Erthygl 15.

Erthygl 2 – Aelodau'r Cyngor

2.01 Aelodaeth a chymhwystra

(a) **Aelodaeth.** Bydd gan y Cyngor 69 o aelodau, a elwir fel arall cynghorwyr. Bydd y cynghorwyr hyn yn cael eu hethol gan etholwyr pob adran etholiadol yn unol â chynllun a luniwyd gan y Comisiwn Ffiniau yng Nghymru ac a gymeradwywyd gan y Cynulliad Cenedlaethol.

(b) **Cymhwystra.** Dim ond etholwyr cofrestredig y Cyngor Bwrdeistref Sirol neu'r rheiny sy'n byw neu'n gweithio yn yr ardal fydd yn gymwys i ddal swydd cynghorydd.

2.02 Ethol a chyfnodau swydd cynghorwyr

Cynhelir etholiad rheolaidd cynghorwyr ar y dydd Iau cyntaf ym mis Mai pob pum mlynedd. Bydd cyfnodau swydd cynghorwyr yn dechrau ar y pedwerydd diwrnod ar ôl cael eu hethol a byddant yn gorffen ar y pedwerydd diwrnod ar ôl dyddiad yr etholiad rheolaidd nesaf.

2.03 Rolau a swyddogaethau'r holl gynghorwyr

(a) **Rolau allweddol**. Bydd yr holl gynghorwyr:

(i) ar y cyd yn llunio polisi yn y pen draw ac yn cyflawni nifer o swyddogaethau rheoli strategol a chorfforaethol gan gynnwys cynrychioli'r Cyngor ar gyrff eraill;

(ii) yn cyfrannu at lywodraethu'r ardal yn dda ac yn mynd ati i annog y gymuned i gymryd rhan a chynnwys dinasyddion yn y gwaith o wneud penderfyniadau gan y Cyngor a'i bartneriaethau;

(iii) yn cynrychioli'n effeithiol fuddiannau eu hadran etholiadol a'u hetholwyr unigol;

(iv) yn ymateb i ymholiadau a sylwadau etholwyr mewn modd teg a diduedd;

(v) yn cymryd rhan yn y gwaith o lywodraethu a rheoli'r Cyngor;

(vi) yn cynnal y safonau uchaf o ymddygiad a moeseg;

(viii) yn arwain ar gynigion sy'n gysylltiedig â buddiannau pennaf a lles y gymuned leol a chenedlaethau'r dyfodol yn unol ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

(b) **Hawliau a dyletswyddau**

(i) Bydd gan gynghorwyr yr hawliau i weld dogfennau a gwybodaeth ac i gael mynediad i dir ac adeiladau'r Cyngor fel y bo'n angenrheidiol er mwyn cyflawni eu swyddogaethau'n briodol ac yn unol â'r gyfraith;

(ii) ni fydd cynghorwyr yn cyhoeddi gwybodaeth sy'n gyfrinachol neu'n esempt heb gydsyniad y Cyngor nac yn datgelu gwybodaeth a roddwyd yn gyfrinachol i neb ond cynghorydd neu swyddog sydd â hawl i'w gwybod.

(iii) At y dibenion hyn diffinnir gwybodaeth "gyfrinachol" ac "esempt" yn y Rheolau Mynediad at Wybodaeth yn Rhan 4 o'r Cyfansoddiad hwn.

2.04 Ymddygiad

Bydd cynghorwyr bob amser yn cadw at God Ymddygiad yr Aelodau a'r Protocol ar Gysylltiadau Aelodau/Swyddogion a nodir yn Rhan 5 o'r Cyfansoddiad hwn.

2.05 Lwfansau

Bydd gan gynghorwyr hawl i gael cyflogau, treuliau a lwfansau fel y'u nodir yn y ddogfen Cyflogau, Treuliau a Lwfansau Cynghorwyr yn Rhan 6 o'r Cyfansoddiad hwn fel y'u pennir gan y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol (Rhan 8 Adrannau 141 – 160 ac Atodlenni 2 a 3 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

2.06 Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau o Awdurdodau Lleol

Bydd aelodau yn cadw at y Protocol Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau o Awdurdodau Lleol a nodir yn Rhan 5 o'r Cyfansoddiad hwn.

2.07 Hyfforddiant a Datblygiad Aelodau

Bydd aelodau'n cadw at y Protocol Hyfforddiant a Datblygiad Aelodau a nodir yn Rhan 5 o'r Cyfansoddiad hwn.

Erthygl 3 – Dinasyddion a'r Cyngor

3.01 Hawliau dinasyddion

Mae gan ddinasyddion yr hawliau canlynol. Esbonnir eu hawliau i gael gwybodaeth ac i gymryd rhan yn fanylach yn y Rheolau Mynediad at Wybodaeth yn Rhan 4 o'r Cyfansoddiad hwn.

(a) Pleidleisio a deisebau.

Mae gan ddinasyddion sydd ar y gofrestr etholwyr ar gyfer yr ardal hawl i bleidleisio ac i lofnodi deiseb i ofyn am refferendwm ar Gyfansoddiad ar ffurf maer etholedig.

Gall dinasyddion geisio codi mater gyda'r Cyngor drwy gyflwyno deiseb yn unol â Chynllun Deisebau y Cyngor sydd i'w weld yn rhan 5 o'r Cyfansoddiad.

(b) Gwybodaeth.

Mae gan ddinasyddion hawl i:

(i) fynychu cyfarfodydd y Cyngor, y Weithrediaeth a'i phwyllgorau heblaw os yw gwybodaeth gyfrinachol neu esempt yn debyg o gael ei datgelu ac felly y cynhelir y cyfarfod yn breifat;

(ii) cael gwybod o'r Flaenraglen waith pa benderfyniadau fydd yn cael eu gwneud gan y weithrediaeth neu'r Cyngor a pha faterion y bydd y pwyllgorau trosolwg a chraffu yn eu hystyried a phryd y bydd y materion hyn yn cael eu trafod;

(iii) gweld adroddiadau a phapurau cefndir, ac unrhyw gofnodion o benderfyniadau a wnaed gan y Cyngor a'r weithrediaeth; a

(iv) archwilio cyfrifon y Cyngor yn unol â'r darpariaethau a wnaed mewn Deddfau Seneddol a chyfleu eu barn i'r archwilydd allanol.

c) Cwynion.

Mae gan ddinasyddion hawl i gwyno :

(i) i'r Cyngor ei hun o dan ei Weithdrefn Gwyno Gorfforaethol (mae taflenni sy'n disgrifio hon ar gael);

(ii) i'r Ombwdsmon am unrhyw anghyfiawnder maent wedi'i ddioddef o ganlyniad i gamweinyddu, ond cânt eu hannog i ddefnyddio cynllun cwyno'r Cyngor ei hun yn gyntaf;

(iii) i'r Ombwdsmon os ydynt yn credu bod aelod neu aelod cyfetholedig o'r Cyngor wedi torri Cod Ymddygiad yr Aelodau.

(d) Y Gymraeg

O dan Safonau'r Gymraeg, mae gan ddinasyddion yr hawl i:-

(i) gael gwasanaethau'r Cyngor drwy gyfrwng y Gymraeg;

(ii) cael gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg o'r un safon ag y byddent yn disgwyl ei gael drwy gyfrwng y Saesneg;

(iii) cael parchu eu dewis iaith, boed Cymraeg neu Saesneg.

3.02 Cyfrifoldebau dinasyddion

Rhaid i ddinasyddion beidio â bod yn dreisgar, yn ddifrïol nac yn fygythiol tuag at gynghorwyr neu swyddogion a rhaid iddynt beidio â niweidio yn fwriadol bethau sy'n eiddo i'r Cyngor, cynghorwyr neu swyddogion.

Erthygl 4 – Y Cyngor Llawn

4.01 Ystyron

(a) Fframwaith Polisi.

Ystyr y fframwaith polisi yw'r cynlluniau a strategaethau canlynol ar gyfer y Fwrdeistref Sirol ynghyd â phenderfyniadau a wneir o dro i dro gan y Cyngor ar faterion sy'n effeithio ar bolisi.

Cynllun Lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
Cynllun Corfforaethol ac Amcanion Lles y Cyngor
Strategaeth Adfywio
Cynllun Datblygu Lleol
Cynllun Corfforaethol

(b) Cyllideb.

Mae'r gyllideb yn cynnwys dyrannu adnoddau ariannol i wahanol wasanaethau a phrosiectau, cronfeydd wrth gefn arfaethedig, sylfaen y dreth gyngor, pennu'r dreth gyngor a phenderfyniadau ynghylch rheoli gofyniad benthyca'r Cyngor, rheoli ei wariant cyfalaf a phennu terfynau trosglwyddiadau.

(c) Trosglwyddo Tir ar gyfer Tai.

Ystyr Trosglwyddo Tir ar gyfer Tai yw cymeradwyo neu fabwysiadu ceisiadau (p'un a ydynt ar ffurf ddrafft neu beidio) i Weinidogion Cymru ar gyfer cymeradwyo rhaglen o waredu 500 neu fwy o adeiladau i unigolyn o dan Ddeddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad, Tai a Datblygu Trefol 1993 neu i waredu tir a ddefnyddiwyd at ddibenion preswyl lle y mae angen cymeradwyaeth o dan adran 32 neu 43 Deddf Tai 1985.

4.02 Swyddogaethau'r Cyngor llawn

Dim ond y Cyngor a gaiff arfer y swyddogaethau canlynol:

(a) mabwysiadu a newid y Cyfansoddiad;

(b) cymeradwyo neu fabwysiadu'r fframwaith polisi, y gyllideb ac unrhyw gais i Senedd Cymru mewn perthynas ag unrhyw Drosglwyddo Tir ar gyfer Tai;

(c) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn frys a geir yn y Rheolau Gweithdrefnau Mynediad at Wybodaeth yn Rhan 4 o'r Cyfansoddiad hwn, gwneud penderfyniadau ynghylch unrhyw fater wrth gyflawni swyddogaeth gweithrediaeth yr ymdrinnir â hi yn y fframwaith polisi neu'r gyllideb os yw'r penderfynwr â bwriad i'w wneud mewn modd a

fyddai'n groes i'r fframwaith polisi neu'n groes i'r / heb fod yn gwbl unol â'r gyllideb;

(d) penodi'r arweinydd a deiliaid portffolios y Cabinet (nid aelodau'r Cabinet);

(e) cytuno ar a/neu ddiwygio'r cylch gorchwyl i bwyllgorau, is-bwyllgorau, paneli a byrddau, penderfynu ar eu haelodaeth a gwneud penodiadau iddynt;

(f) penodi cynrychiolwyr i gyrff allanol oni fo'r penodiad yn swyddogaeth gweithrediaeth neu wedi cael ei ddirprwyo gan y Cyngor;

(g) mabwysiadu neu ddiwygio cynllun lwfansau;

(h) newid enw'r ardal, rhoddi teitl henadur er anrhydedd neu ryddfraint y Fwrdeistref Sirol i rywun;

(i) gwneud neu gadarnhau penodiad y Prifweithredwr;

(j) gwneud, diwygio, dirymu, ailddeddfu neu fabwysiadu is-ddeddfau a hyrwyddo neu wrthwynebu gwneud deddfwriaeth leol neu Fesurau personol;

(k) yr holl swyddogaethau dewis lleol a nodir yn Rhan 3 o'r Cyfansoddiad hwn y mae'r Cyngor yn penderfynu y dylent gael eu cyflawni ganddo yntau yn hytrach na'r weithrediaeth;

(l) cyflawni swyddogaethau'r cydbwyllgor corfforedig a nodir yn Erthygl 11 o'r Cyfansoddiad hwn gan gynnwys gwneud cyd-bwyllgor corfforedig, a gwneud cais a chael caniatâd i reoleiddio cyd-bwyllgor corfforedig;

(m) ymgynghori â phobl leol, pobl eraill sy'n cynnal busnes yn ardal y Cyngor, swyddogion y Cyngor a phob undeb llafur a gydnabyddir gan y Cyngor ynghylch i ba raddau y mae'r Cyngor yn bodloni ei ofynion perfformiad;

(n) paratoi adroddiad blynyddol ynghylch i ba raddau y mae'r Cyngor wedi bodloni ei ofynion perfformiad;

(o) adolygu, cymeradwyo a diwygio amcanion llesiant y Cyngor yn unol ag adran 9 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2005 a'r canllawiau statudol cysylltiedig a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru;

(p) parhau i adolygu i ba raddau y mae:

(i) yn arfer ei swyddogaethau yn effeithiol;

(ii) yn defnyddio ei adnoddau yn ddarbodus, effeithlon ac effeithiol; a

(iii) ei drefniadau llywodraethu yn effeithio ar gyfer sicrhau'r materion a nodir yn (i) a (ii) uchod;

(q) yr holl faterion eraill y mae'n rhaid, o dan y gyfraith, eu neilltuo i'r Cyngor.

4.03 Cyfarfodydd y Cyngor

Mae tri math o gyfarfod y Cyngor:

(a) y cyfarfod blynyddol;

(b) cyfarfodydd arferol;

(c) cyfarfodydd eithriadol

a byddant yn cael eu cynnal yn unol â Rheolau Gweithdrefnau'r Cyngor yn Rhan 4 o'r Cyfansoddiad hwn.

4.04 Cyfrifoldeb am swyddogaethau

Bydd y Cyngor yn cynnal y tablau yn Rhan 3 o'r Cyfansoddiad hwn sy'n nodi'r cyfrifoldebau am swyddogaethau'r Cyngor nad yw'r weithrediaeth yn gyfrifol amdanynt.

Erthygl 5 – Cadeirio'r Cyngor

Cyfeiriadau:

Adrannau 22, 23; Atodlen 12; Deddf Llywodraeth Leol 1972
Atodlen 3, Deddf Llywodraeth Leol 2000

5.01 Rôl a swyddogaeth cadeirydd y Cyngor

Bydd gan Faer y Cyngor ac, yn ei absenoldeb, y Dirprwy Faer, y rolau a swyddogaethau canlynol:

Bydd y Maer yn cael ei ethol gan y Cyngor pob blwyddyn. Bydd gan y Maer y cyfrifoldebau canlynol:

1. cynnal a hyrwyddo dibenion y Cyfansoddiad, a dehongli'r Cyfansoddiad pan fo angen;

2. llywyddu ar gyfarfodydd y Cyngor er mwyn i'w fusnes gael ei gyflawni'n effeithlon a chan ystyried hawliau cynghorwyr a buddiannau'r gymuned;

3. sicrhau bod cyfarfod y Cyngor yn fforwm i drafod materion o bwys i'r gymuned leol ac yn fan lle mae modd i aelodau nad ydynt ar y weithrediaeth a chadeiryddion pwyllgorau gael eu dal i gyfrif;

4. hyrwyddo cynnwys y cyhoedd yng ngweithgareddau'r Cyngor;

5. bod yn gydwybod i'r Cyngor; a

6. ymbresenoli mewn digwyddiadau dinesig a seremonïol o'r fath y bydd y Cyngor ac ef/hi yn barnu y bo'n briodol

7. cyflawni dyletswyddau fel sy'n ofynnol o dan Reoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2013 yn unol â'r Protocol Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau a nodir yn Rhan 5 o'r Cyfansoddiad hwn

Erthygl 6 – Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu

Mae'r swyddogaeth trosolwg a chraffu yn ganolog i gyfansoddiadau newydd. Mae Canllawiau'r Cynulliad yn egluro y dylai pwyllgorau trosolwg a chraffu fod yn bwyllgorau pwerus sy'n cyfarfod yn gyhoeddus i drafod a gwneud argymhellion ar wella a datblygu polisïau a dal y weithrediaeth a swyddogion sy'n arfer pwerau dirprwyedig i gyfrif am eu gweithredoedd. Bydd ganddynt hefyd rôl allweddol wrth ystyried materion eraill o bwys lleol.

6.01 Cylch gorchwyl

Bydd y Cyngor yn penodi'r pwyllgorau trosolwg a chraffu a nodir yn y golofn ar y chwith yn y tabl isod i oruchwylio a chraffu ar y ffordd y cyflawnir y swyddogaethau a roddir gan adran 21 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 mewn perthynas â'r materion a nodir yn y golofn ar y dde yn yr un tabl, a fydd y rhain yn ymdrin ag un neu ragor o gyfrifoldebau am feysydd gwasanaeth a bydd yn cynnwys rhai penderfyniadau pŵer dirprwyedig, fel y'u rhestrir yn Erthygl 13.

Cyfeiriadau:

Adran 21 ac Atodlen 1 (Paragraffau 7,8,10 ac 11), Deddf Llywodraeth Leol 2000
Penodau 4 a 6, Deddf Llywodraeth Leol 2000 Rhan II: Canllawiau i Gynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol yng Nghymru ar Drefniadau Gweithrediaeth, Gorffennaf 2001

Roedd Deddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol sefydlu Pwyllgor Trosedd ac Anhrefn a daeth hyn i rym yng Nghymru ar 1 Hydref 2009. Gan Bwyllgor Craffu Partneriaethau'r Cyngor mae'r swyddogaeth ychwanegol a roddwyd gan Ddeddf Heddlu a Chyfiawnder 2006.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gydweithio'n ffurfiol gyda'r Bwrdd Iechyd Lleol, Awdurdod Tân ac Achub De Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru fel Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer ardal ddaearyddol y Cyngor a defnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy er mwyn cyflawni'r ddyletswydd/nodau lles o dan y Ddeddf. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ddynodi Pwyllgor Craffu i graffu ar waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Cytunodd y Cyngor ar 12 Mai 2016 i ail-ddynodi Pwyllgor Polisi ac Adnoddau'r Cyngor (yn eistedd fel y Pwyllgor Trosedd ac Anhrefn) fel y Pwyllgor Craffu Partneriaethau i ysgwyddo'r cyfrifoldebau ychwanegol i graffu ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Bydd y Pwyllgor Craffu Partneriaethau'n parhau i graffu ar waith Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Caerffili Saffach fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Heddlu a Chyfiawnder 2006.

Wrth ystyried aelodau o'r fath bwyllgorau, rhoddir sylw dyledus i gyfraniad posibl rhanddeiliaid cymunedol y tu allan i'r Cyngor. Bydd swyddogaethau'r pwyllgorau trosolwg a chraffu ar gyfer addysg yn cydymffurfio â darpariaethau paragraffau 8, 9, 10 ac 11 o atodlen 1 i Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (h.y. cynnwys cynrychiolwyr eglwysi a llywodraethwyr a rhiant-lywodraethwyr fel aelodau penodedig pleidleisio o bwyllgorau sydd ag addysg fel y cyfan neu ran o'u cylch gwaith).

Adolygu neu graffu ar benderfyniadau a wnaed, neu gamau a gymerwyd, gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus;

Cylch Gorchwyl: Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau (hefyd Pwyllgor Craffu Partneriaethau'r Cyngor)	
Cynllun Lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus	Y Cynllun Lles yw'r gydweledigaeth strategol ar gyfer y Fwrdeistref Sirol a ddatblygwyd gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus trwy ei bartneriaid, sef Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Heddlu Gwent, Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent, cyrff Prawf Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent a Gweinidogion Cymru. Mae'n nodi y bydd y weledigaeth hon yn cael ei gwireddu trwy gyflawni Amcanion Lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer y Fwrdeistref Sirol. Caerffili Wyrddach O dan bob un o'r Amcanion hyn mae amrywiaeth o Flaenoriaethau wedi cael eu nodi ar gyfer gweithredu.
Cynllun Corfforaethol ac amcanion lles	Mae amcanion lles y Cyngor yntau yn cyfrannu at weledigaeth gyffredinol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.
Cyfadran Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol Cyfrifoldebau	Gweithredu fel pwyllgor trosolwg a chraffu cyffredinol i'r Cyngor
	Y gwaith o gynllunio'n ariannol, cyllidebu a rheoli adnoddau'r Awdurdod mewn modd priodol
	Polisïau'r Cyngor
	Datblygu a gweithredu polisïau a themâu corfforaethol y Cyngor.
	Darparu gwasanaeth er mwyn cyflawni amcanion strategol y Cyngor
	Gweithredu Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella ar draws yr Awdurdod yn unol â darpariaethau Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009
	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu a Gwasanaethau Cwsmeriaid
	Adnoddau Dynol
	Cyllid Corfforaethol
	Gwasanaethau Etholiadol
	Gwasanaethau Cyfreithiol
	Gwasanaethau Archwilio Mewnol

	Gwasanaethau Caffael
	Gwasanaethau Democrataidd
	Iechyd a Diogelwch Corfforaethol gan gynnwys cysylltu â'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
	Rheoli Perfformiad
	Trosolwg ar yr holl faterion polisi a chyllid mae'r Weithrediaeth yn eu hystyried
	Cydraddoldeb a'r Gymraeg
	Unrhyw fater neu bwnc arall sy'n rhan briodol o swyddogaeth Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ond nad yw wedi'i ddynodi yn benodol i unrhyw un arall o Bwyllgorau Craffu'r Cyngor a enwir
Cyfadran y Cymunedau Cyfrifoldebau	Cynllunio at Argyfwng
Mae gan y Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau y cylch gorchwyl penodol canlynol wrth weithredu fel y Pwyllgor Craffu Partneriaethau	Pwyllgor Craffu Partneriaethau Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am graffu ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus fel y nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r Pwyllgor hefyd yn gyfrifol am graffu ar Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Caerffili Saffach fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Heddlu a Chyfiawnder 2006. Aelodaeth y Pwyllgor Bydd y Pwyllgor yn cynnwys yr Aelodau canlynol: • Aelodau'r Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau • Aelodau Cyfetholedig Bydd y Pwyllgor yn gwahodd cynrychiolwyr cyfetholedig o bob un o asiantaethau partner statudol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus: 1 cynrychiolydd anweithredol, nad yw'n Gynghorydd, o Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan 1 cynrychiolydd anweithredol o Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru 1 cynrychiolydd anweithredol o Awdurdod Tân ac Achub De Cymru 1 aelod cyfetholedig ychwanegol o bob un o'r canlynol:-

	Sefydliad cydraddoldeb / y Gymraeg Sefydliad anabledd Y Cyngor Ieuenctid Sy'n golygu mai aelodaeth y Pwyllgor yw 16 o Gynghorwyr, 6 aelod cyfetholedig (3 asiantaeth bartner statudol a 3 arall fel y'u rhestrir uchod), yn ogystal â hyd at 6 o Gynrychiolwyr Gwadd fel y nodir isod. Cynrychiolwyr Gwadd Er mwyn sicrhau bod y Pwyllgor Craffu yn cael budd gwybodaeth arbenigol ac arbenigedd ychwanegol o'r maes partneriaethol ehangach, rhoddir gwahoddiad sefydlog i'r sefydliadau canlynol, gan geisio cynrychiolydd nad yw'n aelod o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol Cymru Llywodraeth Cymru Tystion Er mwyn cyflawni ei rôl bydd angen i'r pwyllgor ystyried tystiolaeth i gyflawni ei swyddogaeth craffu statudol. Gall y pwyllgor geisio gwybodaeth ychwanegol a gwahodd tystion arbenigol. Bydd y sefydliadau canlynol yn cael eu gwahodd i roi tystiolaeth, ochr yn ochr â thystion eraill a nodir gan y pwyllgor. Cadeirydd ac Aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Swyddogion Arweiniol Sefydliadau Partner y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cadeirydd Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Caerffili Saffach

	Swyddogion Arweiniol Sefydliadau Partner Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Caerffili Saffach Cylch Gorchwyl Mae'r Cylch Gorchwyl ar gyfer y Pwyllgor Craffu Partneriaethau fel a ganlyn: Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus • Darparu her 'cyfaill beirniadol' i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. • Craffu ar benderfyniadau a gweithredoedd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn gweithredu mewn partneriaeth, a'u gwerthuso. • Adolygu trefniadau llywodraethiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. • Cyflwyno adroddiadau i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (fel bo'n briodol) mewn perthynas â'i swyddogaethau neu drefniadau llywodraethiant a gwneud argymhellion i gael eu hystyried a'u mabwysiadu. • Ystyried materion sy'n ymwneud â'r Bwrdd y bydd Gweinidogion Cymru'n eu cyfeirio ato ac adrodd i Weinidogion Cymru yn unol â hynny. • Cyflawni swyddogaethau eraill mewn perthynas â'r Bwrdd sydd wedi'u gosod arno gan y Ddeddf. Troseddu ac Anrhefn Craffu ar waith Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Caerffili Saffach a'r partneriaid ("awdurdodau cyfrifol") y mae'n eu cynnwys i'r graddau y bo eu gweithgareddau'n ymwneud â'r bartneriaeth hithau. Mewn geiriau eraill, mae rôl craffu'r Aelodau'n ymwneud dim ond â'r gwaith a wneir gan Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Caerffili Saffach. Mae'r rôl yn cynnwys: • Ystyried gweithredoedd a gyflawnir gan yr awdurdodau cyfrifol ym Mhartneriaeth Diogelwch Cymunedol Caerffili Saffach. • Ystyried Galwadau gan Gynghorwyr i Weithredu.

	• Cyflwyno adroddiadau neu wneud argymhellion i'r Cyngor ac/neu i eraill a monitro'r argymhellion hynny. Craffu ar Weithgarwch Partneriaethau Nid oes gan y Pwyllgor bwerau statudol i graffu ar bartneriaid yn unigol. Ni all ond craffu ar weithgarwch a gyflawnir mewn partneriaeth wrth gydweithio.

Aelodau'r Cabinet yn Adrodd i'r Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau:

Aelod(au) Perthnasol o'r Cabinet. I gael rhagor o wybodaeth am bortffolios swyddi'r Cabinet gweler Erthygl 7.

Cylch Gorchwyl: Pwyllgor Craffu Addysg	
Cyfadran Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol	Y ffordd y cyflawnir rhwymedigaethau'r Cyngor fel Awdurdod Addysg Lleol o dan statudau a rheoliadau.
	Paratoi a chraffu ar gynlluniau strategol statudol ym maes addysg a dysgu gydol oes, Amcanion Lles perthnasol y Cyngor a Pherfformiad y Gyfadran
	Monitro perfformiad y Gwasanaeth Cyflawni Addysg mewn perthynas â chyflawni'r Agenda Codi Safonau gan gynnwys monitro, cynorthwyo a herio yn wrthgyfartal â llwyddiant, a gyflawnir gan y Gwasanaeth Cyflawni Addysg ar ran yr Awdurdod *.
	*Rheoli Ysgolion yn Lleol ac Ariannu Teg.
	Blaengynllunio mewn perthynas â lleoedd ysgolion, derbyniadau i ysgolion a grantiau myfyrwyr.
	Gwasanaethau Cynhwysiant sy'n cynnwys Gwasanaethau Cymorth Dysgu, seicoleg addysg, lles addysg, cymorth ymddygiad a rheoli gwahardd disgyblion.
	*Cymorth a hyfforddiant i Lywodraethwyr
	*Addysg Cyfrwng Cymraeg.
	*Maes Llafur Addysg Grefyddol Cytunedig. CYSAG * yn golygu yn cael ei gyflawni gan y Gwasanaeth Cyflawni Addysg ond bod y Cyngor yn cadw'r ddyletswydd statudol
	Gwasanaethau ar y cyd trwy Wasanaeth Nam ar y Golwg Gwent.

	Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Cymru.
	Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned
	Dysgu gydol oes ac addysg gymunedol
	Gwasanaeth Llyfrgelloedd Cyhoeddus.
	Gwasanaeth Cerdd.
	Sicrhau grantiau.
	Gwasanaeth Ieuenctid

Aelodau'r Cabinet sy'n Adrodd i'r Pwyllgor Craffu Addysg:

Aelod(au) Perthnasol o'r Cabinet. I gael mwy o wybodaeth am bortffolios swyddi'r Cabinet gweler Erthygl 7.

Cylch Gorchwyl: Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol	
Cyfadran Gwasanaethau Cymdeithasol Cyfrifoldebau	Darparu Gofal Cymdeithasol i Blant ac Oedolion o dan statudau
	Darparu cyngor, cyfarwyddyd a chymorth.
	Gwaith asesu, cynllunio gofal ac adolygu ar gyfer yr holl becynnau cymorth i ddefnyddwyr gwasanaethau sy'n cyrraedd y trothwyau cymhwysedd diffiniedig yn unol â'r ddeddfwriaeth, rheoliadau a chanllawiau statudol cyfredol
	Comisiynu a chontractio ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol
	Paratoi a chraffu ar gynlluniau gwasanaethau cymdeithasol statudol, Amcanion Lles perthnasol y Cyngor a Pherfformiad y Gyfadran
Cyfadran Cymunedau Cyfrifoldebau	Gweithrediadau Trafnidiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol

Aelodau'r Cabinet sy'n Adrodd i'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol:

Aelod(au) Perthnasol o'r Cabinet. I gael mwy o wybodaeth am bortffolios swyddi'r Cabinet gweler Erthygl 7.

Cylch Gorchwyl: Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd a Chynaliadwyedd	
Cyfadran Cymunedau Cyfrifoldebau	Paratoi a chraffu ar gynlluniau statudol, Amcanion Lles perthnasol y Cyngor a Pherfformiad y Gyfadran
	Casglu Gwastraff, Trin a Gwaredu Gwastraff a Glanhau Strydoedd
	Claddedigaethau, Mynwentydd a Gwasanaethau Profedigaeth
	Cynnal Priffyrdd
	Goleuadau Stryd
	Gwasanaethau Peirianyddol
	Draenio Tir
	Rheoli a Chynnal Fflyd

	Parciau a Chyfleusterau Awyr Agored
	Hamdden a Datblygu Chwaraeon
	Toiledau Cyhoeddus
	Trafnidiaeth Gyhoeddus
	Adfer Tir a Thomenni
	Diogelwch ar y Ffyrdd
	Rheoli Traffig (gan gynnwys Gorchmynion a Hysbysiadau Rheoleiddio Traffig)
	Rheoli Datblygiad Priffyrdd
	Parcio Ceir
	Dylunio a Chaffael Peirianneg Sifil
	Strwythurau
	Gwelliannau Cludiant a Chynllunio
	Iechyd y Cyhoedd (gan gynnwys clefydau heintus a hybu / addysg iechyd)
	Gorfodi Diogelwch Bwyd
	Rheoli Llygredd (gan gynnwys sŵn, sbwriel a thipio anghyfreithlon, ansawdd aer a dŵr, tir halogedig)
	Iechyd y Cyhoedd (niwsans statudol a charthffosydd / draeniau)
	Safonau Masnach
	Iechyd a Diogelwch safleoedd masnachol
	Teledu Cylch Cyfyng a Wardeiniaid Diogelwch Cymunedol
	Gwasanaethau Rheoli Plâu, Warden Cŵn, Tresmasu gan Anifeiliaid
	Gorfodi Iechyd a Lles Anifeiliaid
	Trwyddedu
	Cofrestrydd Genedigaethau, Marwolaethau, Priodasau / Partneriaethau Sifil
	Glanhau Adeiladau
	Arlwyo
	Canolfannau Cymunedol
	Gwasanaethau Eiddo
	Rheoli Asedau Corfforaethol

Aelod o'r Cabinet sy'n Adrodd i Bwyllgor Craffu'r Amgylchedd a Chynaliadwyedd:

Aelod(au) Perthnasol o'r Cabinet. I gael mwy o wybodaeth am bortffolios swyddi'r Cabinet gweler Erthygl 7.

Cylch Gorchwyl: Pwyllgor Craffu Adfywio a Thai	
Cyfadran Gwasanaethau Cymdeithasol Cyfrifoldebau	Strategaeth Tai
	Tai'r Sector Preifat
	Tai'r Sector Cyhoeddus
	Tai'r Sector Cyhoeddus

	Cyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru
	Gweithrediadau Atgyweirio Tai
Cyfadran Cymunedau	Cynllunio – Polisi'r Cynllun Datblygu Strategol
	Cynllunio – Adnewyddu Trefol a Rheoli Canol Trefi
	Cynllunio – Rheoli Datblygu ac Adeiladu (ac eithrio'r materion hynny a nodir yng Nghylch Gorchwyl y Pwyllgor Cynllunio)
	Cynllunio – Gwasanaethau Cefn Gwlad a Thirweddau
	Datblygu Economaidd a Chyllid Rhaglenni Ewropeaidd
	Datblygu'r Celfyddydau
	Twristiaeth a Threftadaeth

Aelod o'r Cabinet sy'n Adrodd i'r Pwyllgor Craffu Adfywio a Thai:

Aelod(au) Perthnasol o'r Cabinet. I gael mwy o wybodaeth am bortffolios swyddi'r Cabinet gweler Erthygl 7.

6.02 Rôl gyffredinol (a allai gael ei chyflawni gan y Pwyllgor ei hun neu drwy benodi grwpiau gorchwyl a gorffen i ymchwilio i fater ac adrodd i'r Pwyllgor ar gyfer penderfyniad).

(a) O fewn eu cylch gorchwyl, bydd pwyllgorau trosolwg a chraffu yn:

i) adolygu a/neu graffu ar benderfyniadau a wnaed neu gamau gweithredu a gymerwyd mewn cysylltiad â chyflawni unrhyw un o swyddogaethau'r Cyngor;
ii) cyflwyno adroddiadau a/neu wneud argymhellion i'r Cyngor llawn a/neu'r weithrediaeth a/neu unrhyw gyd-bwyllgor mewn perthynas â chyflawni unrhyw swyddogaethau;
iii) ystyried unrhyw fater sy'n effeithio ar yr ardal neu ei thrigolion; a
iv) arfer yr hawl i alw i mewn, i gael eu hailystyried, penderfyniadau sydd wedi'u gwneud ond nad ydynt wedi cael eu rhoi ar waith gan y weithrediaeth.
iv) monitro gweithrediad a pherfformiad gwasanaethau unigol, gwasanaethau'r Cyngor a chyrff allanol priodol, gan gynnwys cyd-bwyllgorau.
v) cynnig sylwadau ar gyllidebau drafft
vi) edrych ar wybodaeth monitro perfformiad.
vii) ystyried Galwadau perthnasol gan Gynghorwyr i Weithredu

(b) O fewn eu cylch gorchwyl, caiff pwyllgorau trosolwg a chraffu:

i) gynorthwyo'r Cyngor a'r weithrediaeth yn y gwaith o ddatblygu ei gyllideb a fframwaith polisi trwy ddadansoddi materion polisi yn fanwl;
ii) gwneud ymchwil a chynnal ymgynghoriadau cymunedol a rhai eraill wrth ddadansoddi materion polisi ac opsiynau posibl;

iii) ystyried a gweithredu mecanweithiau i hybu a gwella cyfranogiad cymunedol yn y gwaith o ddatblygu opsiynau polisi;
iv) holi aelodau o'r weithrediaeth a/neu swyddogion am eu barn ar faterion a chynigion sy'n effeithio ar yr ardal;
v) cysylltu â sefydliadau allanol eraill sy'n gweithredu yn yr ardal, boed cenedlaethol, rhanbarthol neu leol, er mwyn sicrhau y caiff buddiannau pobl leol eu gwella trwy gydweithio.
vi) holi a chasglu tystiolaeth oddi wrth unrhyw berson (gyda'i gydsyniad).

(c) **Cyllid.** Caiff pwyllgorau trosolwg a chraffu arfer cyfrifoldeb cyffredinol am y cyllid sydd ar gael iddynt.

(d) **Adroddiad blynyddol**. Rhaid i bwyllgorau trosolwg a chraffu adrodd pob blwyddyn i'r Cyngor llawn ar eu gwaith ac adrodd ar raglenni gwaith y dyfodol a dulliau gweithio diwygiedig os yw'n briodol.

(e) **Swyddogion.** Caiff pwyllgorau trosolwg a chraffu arfer cyfrifoldeb cyffredinol am raglen waith y swyddogion a gyflogir i gynorthwyo â'u gwaith.

6.03 Trafodion pwyllgorau trosolwg a chraffu

Bydd pwyllgorau trosolwg a chraffu yn cynnal eu trafodion yn unol â'r Rheolau Gweithdrefnau Trosolwg a Chraffu a nodir yn Rhan 4 o'r Cyfansoddiad hwn.

6.04 Pwerau dirprwyedig

a) Dirprwyir i bob Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yr holl faterion sy'n dod o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor hwnnw;

b) Caiff y Prif Weithredwr neu un o'r Cyfarwyddwyr neu Bennaeth Gwasanaeth hefyd arfer y pwerau hynny sydd wedi'u dirprwyo i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu ar ôl ymgynghori â Chadeirydd neu Is-gadeirydd y Pwyllgor priodol.

Erthygl 7 – Y Weithrediaeth

RÔL Y WEITHREDIAETH

Mae'r Rheolau Gweithdrefnau yn Rhan 4 o'r Cyfansoddiad hwn yn nodi sut y bydd y weithrediaeth yn gweithredu. Mae'r rhain yn cynnwys trefniadau ar gyfer cyfarfodydd, cynllun dirprwyo ac is-ddirprwyo swyddogaethau.

Cyfeiriadau:

Adran 11 ac Atodlen 1, paragraffau 1,2,3, Deddf Llywodraeth Leol 2000
Penodau 4 a 6, Deddf Llywodraeth Leol 2000 Rhan II: Canllawiau i Gynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol yng Nghymru ar Drefniadau Gweithrediaeth, Gorffennaf 2001
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

7.01 Rôl

Bydd y weithrediaeth yn cyflawni holl swyddogaethau'r awdurdod lleol nad ydynt yn gyfrifoldeb i unrhyw ran arall o'r awdurdod lleol, boed o dan y gyfraith neu o dan y Cyfansoddiad hwn, a bydd ganddi gyd-gyfrifoldeb am lesiant y gymuned leol a chenedlaethau'r dyfodol.

7.02 Ffurf ac aelodaeth

Bydd y weithrediaeth yn cynnwys yr arweinydd gweithredol a benodir gan y Cyngor ynghyd â naw cynghorydd a benodir i'r weithrediaeth gan arweinydd y weithrediaeth ac a fydd yn dal y portffolios canlynol:

1. Dirprwy Arweinydd dros Ffyniant, Adfywio a Newid yn yr Hinsawdd
2. Aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol ac Eiddo
3. Aelod Cabinet dros Gyllid a Pherfformiad
4. Aelod Cabinet dros Addysg a Chymunedau
5. Aelod Cabinet dros Dai
6. Aelod Cabinet dros Wastraff, Hamdden a Mannau Gwyrdd
7. Aelod Cabinet dros Briffyrdd a Thrafnidiaeth
8. Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol
9. Aelod Cabinet dros Gynllunio a Diogelu'r Cyhoedd

Mae'r ***Portffolio Cyllid, Perfformiad a Llywodraethiant yn cynnwys y canlynol (nid yw'r rhestr hon yn holl gynhwysfawr)***:-

- Cyllidebu a rheoli'r Awdurdod yn ariannol mewn modd priodol
- Gwasanaethau Cyfreithiol
- Gwasanaethau Etholiadol
- Gwasanaethau Archwilio Mewnol
- Polisi a Pherfformiad gan gynnwys cydraddoldeb a'r Gymraeg
- Cyswllt gweithredol â Gwasanaethau Democrataidd gan gynnwys hyfforddiant i Aelodau

- Llywodraethiant Corfforaethol

Mae ***Portffolio'r Economi, Seilwaith a Chynaliadwyedd yn cynnwys y canlynol (nid yw'r rhestr hon yn holl gynhwysfawr)***:-

- Dirprwy gynrychiolydd ar Gyd-gabinet y Cytundeb Dinesig
- Datblygu Economaidd ac Adfywio
- Cynaliadwyedd / Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
- Twristiaeth a Chyfleusterau Diwylliannol
- Priffyrdd Strategol a Chynnal Priffyrdd
- Cynllun Trafnidiaeth Integredig – Priffyrdd, Rheilffyrdd, Metro a mathau eraill o drafnidiaeth
- Aelod o'r awdurdod trafnidiaeth rhanbarthol
- Rheoli llifogydd a dŵr gan gynnwys draenio tir
- Goleuadau stryd
- Trafnidiaeth gan gynnwys gweithrediadau trafnidiaeth Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol
- Adfer tir a thomenni
- Rheoli traffig gan gynnwys parcio ceir, gorchmynion a hysbysiadau rheoleiddio traffig
- Seilwaith digidol

Mae'r ***Portffolio Gofal Cymdeithasol a Lles yn cynnwys y canlynol (nid yw'r rhestr hon yn holl gynhwysfawr)***:-

- Pob agwedd ar y gwaith o ddarparu gofal a gwasanaethau cymdeithasol i oedolion
- Pob agwedd ar y gwaith o ddarparu gofal a gwasanaethau cymdeithasol i blant
- Integreiddio â gwasanaethau iechyd

Mae'r ***Portffolio Addysg a Chyflawniad yn cynnwys y canlynol (nid yw'r rhestr hon yn holl gynhwysfawr)***:-

- Cyflawni rhwymedigaethau statudol y Cyngor fel Awdurdod Addysg Lleol gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) paratoi a chraffu ar gynlluniau addysg strategol, blaengynllunio mewn perthynas â lleoedd ysgolion a derbyniadau i ysgolion, rheoli ysgolion yn lleol ac ariannu teg a gwasanaethau cymorth dysgu
- Cyswllt gweithredol â'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg
- Gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus
- Gwasanaeth ieuenctid
- Dysgu oedolion (gan gynnwys addysg gymunedol)
- Ymgysylltu ag ieuenctid / cysylltu â'r fforwm ieuenctid

Mae ***Portffolio'r Amgylchedd a Diogelu'r Cyhoedd yn cynnwys y canlynol (nid yw'r rhestr hon yn holl gynhwysfawr)***:-

- Cynllunio – gweithrediad priodol gwasanaethau datblygu a rheoli adeiladu (ac eithrio ceisiadau i'r awdurdod)
- Diogelu'r cyhoedd
- Iechyd yr amgylchedd
- Trwyddedu
- Diogelwch cymunedol
- Cynllunio at argyfwng
- Gwasanaethau cofrestru
- Gwasanaethau arlwyo

Mae'r ***Portffolio Gwasanaethau Cymdogaethau yn cynnwys y canlynol (nid yw'r rhestr hon yn holl gynhwysfawr)***:-

- Gwastraff ac ailgylchu
- Glanhau
- Gwasanaethau chwaraeon a hamdden
- Parciau a chyfleusterau hamdden a chwaraeon awyr agored
- Parciau gwledig a gwasanaethau cefn gwlad
- Canolfannau cymunedol
- Glanhau adeiladau
- Rheoli fflyd a chynnal cerbydau
- Claddu, mynwentydd a gwasanaethau profedigaeth

Mae'r ***Portffolio Cartrefi a Lleoedd yn cynnwys y canlynol (nid yw'r rhestr hon yn holl gynhwysfawr)***:-

- Tai'r sector cyhoeddus
- Cyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru
- Tai'r sector preifat gan gynnwys materion yn ymwneud â gorfodi
- Digartrefedd
- Cyswllt gweithredol â materion yn ymwneud â'r Grŵp Gorchwyl Ansawdd Tai
- Rheoli gwaith asesu corfforaethol
- Gwasanaethau eiddo

Mae'r ***Portffolio Gwasanaethau Corfforaethol yn cynnwys y canlynol (nid yw'r rhestr hon yn holl gynhwysfawr)***:-

- Pob agwedd ar swyddogaethau'r Cyngor fel cyflogwr (ac eithrio penodi staff) gan gynnwys trosolwg ar recriwtio, telerau ac amodau cyflogaeth, ymddygiad a disgyblaeth, adolygu strwythurol a chanlyniadau'r gwaith hwnnw
- Trosolwg ar Adnoddau Dynol
- Rheoli busnes y Cyngor
- Gwasanaethau Gwybodaeth a Thechnoleg
- Gwasanaethau cwsmeriaid
- Gwasanaethau caffael
- Iechyd a diogelwch corfforaethol
- Cyfathrebu

7.03 Arweinydd

Bydd yr arweinydd yn gynghorydd a etholir i swydd yr arweinydd gan y Cyngor. Bydd yr arweinydd yn dal y swydd hyd nes:

(a) y bydd yn ymddiswyddo o'r swydd; neu

(b) y bydd yn cael ei atal dros dro rhag bod yn gynghorydd o dan Ran III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (er y gall ailafael yn y swydd ar ddiwedd y cyfnod atal); neu

(c) na fydd yn gynghorydd mwyach; neu

(d) y bydd yn cael ei ddiswyddo trwy benderfyniad gan y Cyngor

7.04 Aelodau eraill y weithrediaeth

Dim ond cynghorwyr y ceir eu penodi i'r weithrediaeth. Ni chaniateir cyfetholedigion nac eilyddion am aelodau'r weithrediaeth. Er bod Canllawiau'r Cynulliad yn nodi bod awdurdodau lleol yn rhydd i gael dirprwy aelodau o'r cabinet, maent hefyd yn nodi na allant eilyddio am aelod o'r weithrediaeth mewn cyfarfod o'r cabinet na phleidleisio ar ran yr aelod o'r cabinet maent yn dirprwyo drosto. Ni cheir penodi cadeirydd nac is-gadeirydd y Cyngor i'r weithrediaeth ac ni chaiff aelodau o'r weithrediaeth (gan gynnwys yr arweinydd) fod yn aelodau o bwyllgor trosolwg a chraffu.

Bydd aelodau eraill y weithrediaeth yn dal eu swyddi hyd nes:

(a) y byddant yn ymddiswyddo o'u swyddi; neu

(b) y byddant yn cael eu hatal dros dro rhag bod yn gynghorwyr o dan Ran III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (er y gallant ailafael yn eu swyddi ar ddiwedd y cyfnod atal); neu

(c) na fyddant yn gynghorwyr mwyach; neu

(d) y byddant yn cael eu diswyddo gan yr arweinydd a fydd yn gorfod rhoi rhybudd ysgrifenedig o unrhyw ddiswyddiad i Brif Weithredwr y Cyngor. Bydd y diswyddiad yn dod i rym dau ddiwrnod gwaith ar ôl i'r Prif Weithredwr gael y rhybudd.

7.05 Dirprwy aelodau o'r cabinet

Mae'r Cyngor wedi penderfynu na fydd unrhyw swydd dirprwy aelodau o'r cabinet ac eithrio dau ddirprwy arweinydd.

7.06 Trafodion y weithrediaeth

Bydd trafodion y weithrediaeth yn cael eu cynnal yn unol â Rheolau Gweithdrefnau'r Weithrediaeth a nodir yn Rhan 4 o'r Cyfansoddiad hwn.

7.07 Cyfrifoldeb am swyddogaethau

Bydd yr arweinydd yn cadw rhestr yn nodi pa aelodau unigol o'r weithrediaeth, pwyllgorau'r weithrediaeth, swyddogion neu gyd-drefniadau sy'n gyfrifol am arfer swyddogaethau gweithrediaeth penodol fel y nodir yn Rhan 3 o'r Cyfansoddiad hwn.

(Noder: mae'r Cyngor wedi penderfynu na fydd unrhyw ddirprwyo pwerau i aelodau unigol o'r Cabinet).

7.08 Gweithredu fel un o Gynrychiolwyr y Cyngor ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

(a) Bydd yr Arweinydd yn un o ddau gynrychiolydd y Cyngor yng nghyfarfodydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

(b) Bydd yr Arweinydd yn dynodi'r Dirprwy Arweinydd i fod yn bresennol yn ei absenoldeb oni bai nad yw'r Dirprwy Arweinydd ar gael chwaith ac os felly bydd yr Arweinydd yn dynodi Aelod arall o'r Cabinet.

7.09 Gweithredu fel aelod Cyngor o Gyd-bwyllgor Corfforedig y Cabinet

Yr Arweinydd fydd aelod Cyngor Cyd-bwyllgor Corfforedig y De-ddwyrain. Pan na all yr Arweinydd gyflawni ei swyddogaethau mewn perthynas â'r Cyd-bwyllgor Corfforedig, bydd y Cyngor yn penodi aelod arall o'r Cabinet i gyflawni'r swyddogaethau hynny ar ran y Cyngor.

Erthygl 8 – Pwyllgorau Rheoleiddio a Phwyllgorau Eraill

Nid swyddogaethau'r weithrediaeth na'r bwrdd yw cynllunio a thrwyddedu. Felly bydd angen i gynghorau greu pwyllgorau i gyflawni'r swyddogaethau hyn o dan bwerau a ddirprwyir oddi wrth y Cyngor llawn. "Pwyllgorau rheoleiddio" yw'r enw ar y rhain. Mae'r Cyngor hefyd wedi sefydlu

(1) Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
(2) Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd

8.01 Pwyllgorau rheoleiddio a phwyllgorau eraill

Mae'r Cyngor yn penodi'r pwyllgorau canlynol gyda'r Cylchoedd Gorchwyl a'r pwerau wedi'u dirprwyo i'r Pwyllgorau ac i swyddogion, fel y nodir ar y tudalennau canlynol:-

a) PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cylch Gorchwyl

Cyflawni swyddogaethau Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili mewn perthynas â phob agwedd ar y canlynol:

1. Arfer swyddogaethau'r Cyngor fel awdurdod cynllunio lleol

2. Heb ragfarnu cyffredinolrwydd yr uchod cyflawni'r canlynol:

a) Rheoli datblygu a phob agwedd ar orfodi cynllunio

b) Rheoli hysbysebu

c) Hysbysiadau Diogelu Adeilad

d) Diogelu Coed, Trwyddedau Cwympo Coed

e) Rheoliadau Adeiladu

f) Strwythurau peryglus a safleoedd diffaith.

g) Rheoli Adeiladau Rhestredig.

h) Mynediad i bobl anabl

i) Enwi a rhifo strydoedd.

j) Cynllunio Mwynau – Rheoli a gorfodi polisi

3. Cychwyn achosion cyfreithiol neu amddiffyn achosion cyfreithiol mewn perthynas ag enghreifftiau o dorri deddfwriaeth, y gyfraith gyffredin neu weithdrefnau sy'n dod o fewn Cylch Gorchwyl y Pwyllgor hwn.

4. Pŵer i gymryd unrhyw gamau gweithredu ar ran y Cyngor mewn perthynas ag unrhyw fater o fewn Cylch Gorchwyl y Pwyllgor hwn, os oes angen camau gweithredu o'r fath i warchod buddiannau'r Cyngor ac y byddai oedi yn peryglu'n sylweddol cyflawni'r amcan mewn golwg.

5. Contractau a gwariant arall o fewn Cylch Gorchwyl y Pwyllgor, os yw gwariant perthnasol presennol wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor ac yn ddarostyngedig i Reolau Sefydlog a Rheoliadau Ariannol y Cyngor.

6. Pŵer i awdurdodi swyddogion priodol, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd, ac os bernir ei bod yn angenrheidiol ar ôl ceisio barn aelodau priodol, cyflawni unrhyw un o swyddogaethau'r Pwyllgor hwn ar ran y Pwyllgor.

AR YR AMOD:

(a) Y bydd pob mater sy'n ymwneud â pholisi lle nad oes penderfyniad polisi perthnasol presennol gan y Cyngor yn cael ei gyfeirio at y Cabinet ar gyfer argymhelliad i'r Cyngor;

(b) Y bydd pob mater sy'n ymwneud â gwariant ariannol lle nad oes gwariant perthnasol presennol wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor yn cael ei gyfeirio at y Cabinet ar gyfer argymhelliad i'r Cyngor.

(c) Os yw'n ymddangos i'r Pwyllgor bod mater sydd dan ystyriaeth hefyd o fewn awdurdodaeth pwyllgor arall o'r Cyngor hwn, yna bydd y mater yn cael ei gyfeirio at y Cabinet i gael penderfyniad ynghylch pa bwyllgor fydd yn penderfynu ar y mater.

(d) Rhaid i drosglwyddiadau arfaethedig o fewn y cyllidebau refeniw mae'r Cyngor wedi cytuno arnynt sy'n fwy na'r swm a bennir o dro i dro gan y Cyngor gael eu cyfeirio at y Cabinet ar gyfer argymhelliad i'r Cyngor.

(e) Lle caiff y Pennaeth Adfywio a Chynllunio neu'r Rheolwr Gwasanaethau Cynllunio ei atal rhag cefnogi, mewn Ymchwiliad Cyhoeddus, rhesymau'r Pwyllgor dros wrthod, yna bydd yr aelod neu'r aelodau a hyrwyddodd y penderfyniad, os yw'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol yn galw arno / arnynt i wneud hynny, yn ymddangos fel un o dystion y Cyngor.

7. Cytunodd y Cyngor yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Mai 2014 y byddai'r cyfyngiadau cyfredol yn y Rheolau Sefydlog, sy'n gwahardd cyfarfod rhag eistedd am fwy na phedair awr, yn cael eu dileu o'r Pwyllgor Cynllunio, yn amodol ar ofyniad i'r Pwyllgor gymryd seibiau priodol, er mwyn sicrhau cysur y rheiny sy'n cymryd rhan yn y cyfarfod.

PWERAU A DDIRPRWYIR I'R PWYLLGOR

Yr holl faterion hynny a restrir uchod yng Nghylch Gorchwyl y Pwyllgor yn ddarostyngedig i'r Weithdrefn Herio.

PWERAU A DDIRPRWYIR I SWYDDOGION Y CYNGOR

1. Penderfynu gan y Pennaeth Adfywio a Chynllunio neu'r Rheolwr Gwasanaethau Cynllunio ar yr holl faterion gorfodi o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a deddfwriaeth gysylltiedig, ac eithrio (a) ni fydd unrhyw achos mae unrhyw Aelod yn gofyn amdano'n ysgrifenedig i'r Pennaeth Adfywio a Chynllunio cyn pen 21 diwrnod ar ôl cyhoeddi'r rhestr wythnosol sy'n cynnwys yr achosion diweddaraf yn cael ei benderfynu ond ar ôl	Y Pennaeth Adfywio a Chynllunio neu'r Rheolwr Gwasanaethau Cynllunio

ymgynghori â Chadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio ac Aelod(au) lleol (b) ni fydd unrhyw achos lle argymhellir nad yw'n hwylus cymryd camau gorfodi ond y byddai'r datblygiad canlyniadol yn groes i bolisïau cynllunio'r Cyngor yn cael ei benderfynu ond ar ôl ymgynghori â Chadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio ac Aelod(au) lleol (c) achosion sydd ym marn y swyddogion yn debyg o fod yn ddadleuol neu o ddiddordeb sylweddol i'r cyhoedd neu na ddylid beth bynnag eu penderfynu ond ar ôl ymgynghori â Chadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio ac Aelod(au) lleol (d) ni fydd achosion lle byddai'r penderfyniad yn gwrthdaro â gwrthwynebiad a gafwyd oddi wrth ymgynghorai statudol yn cael eu penderfynu ond ar ôl ymgynghori â Chadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio ac Aelod(au) lleol	
2. Gweithredu mewn argyfwng ar ran y Cyngor mewn perthynas ag unrhyw fater o fewn Cylch Gorchwyl y Pwyllgor os yw gweithredu o'r fath yn angenrheidiol i warchod buddiannau'r Cyngor ac y byddai oedi cyn dwyn y mater gerbron y Pwyllgor yn peryglu'n sylweddol cyflawni'r amcan mewn golwg.	Y Cyfarwyddwr neu'r Pennaeth Adfywio a Chynllunio neu'r Rheolwr Gwasanaethau Cynllunio mewn ymgynghoriad â Chadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor
3. Cychwyn achos cyfreithiol mewn perthynas ag unrhyw fater o fewn Cylch Gorchwyl y Pwyllgor ac amddiffyn achosion cyfreithiol a gychwynnwyd yn erbyn y Cyngor	Y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol neu unrhyw Brif Gyfreithiwr neu'r Pennaeth Adfywio a Chynllunio neu'r Rheolwr Gwasanaethau Cynllunio mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol neu unrhyw Uwch Gyfreithiwr.
4. Cyflwyno Hysbysiadau Diogelu Adeilad	Y Pennaeth Adfywio a Chynllunio neu'r Rheolwr Gwasanaethau Cynllunio

5. Cymeradwyo neu wrthod cynlluniau o dan Reoliadau Adeiladu	Y Pennaeth Adfywio a Chynllunio neu'r Rheolwr Gwasanaethau Cynllunio
6. Tystysgrifau cwblhau at ddibenion gwarant	Y Pennaeth Adfywio a Chynllunio neu'r Rheolwr Gwasanaethau Cynllunio
7. Camau gorfodi o dan Reoliadau Adeiladu, strwythurau peryglus ac eiddo adfeiliedig	Y Pennaeth Adfywio a Chynllunio neu'r Rheolwr Gwasanaethau Cynllunio
8. Penderfynu ar ddyddiadau y mae hysbysiadau gorfodi a awdurdodir yn briodol yn dod i rym	Y Pennaeth Adfywio a Chynllunio neu'r Rheolwr Gwasanaethau Cynllunio
9. Cymeradwyo mân ddiwygiadau i gynlluniau a gymeradwywyd neu lacio Rheoliadau Adeiladu	Y Pennaeth Adfywio a Chynllunio neu'r Rheolwr Gwasanaethau Cynllunio
10. Cael ceisiadau cynllunio, penderfynu ar ffioedd, ymestyn amser i benderfynu ar geisiadau cynllunio	Y Pennaeth Adfywio a Chynllunio neu'r Rheolwr Gwasanaethau Cynllunio
11. Unrhyw gam gweithredu o dan delerau Gorchymyn Diogelu Coed a gadarnhawyd, neu unrhyw fater yn ymwneud â Thrwyddedau Cwympo Coed islaw 10 hectar.	Y Pennaeth Adfywio a Chynllunio neu'r Rheolwr Gwasanaethau Cynllunio
12. Llofnodi ar ran y Cyngor yr holl hysbysiadau gofynnol yn unol â phenderfyniadau a gorfodiadau o fewn Cylch Gorchwyl y Pwyllgor hwn	Y Pennaeth Adfywio a Chynllunio neu'r Rheolwr Gwasanaethau Cynllunio
13. Unrhyw gamau gofynnol mewn cysylltiad â bwrw ymlaen ag apeliadau i Weinidogion Cymru yn erbyn penderfyniad gan yr awdurdod cynllunio lleol.	Y Pennaeth Adfywio a Chynllunio neu'r Rheolwr Gwasanaethau Cynllunio
14. Cyflwyno hysbysiadau ynghylch cynnal tir diffaith mewn modd priodol.	Y Pennaeth Adfywio a Chynllunio neu'r Rheolwr Gwasanaethau Cynllunio
15. Gwneud unrhyw benderfyniadau angenrheidiol o dan Reoliadau 5,6,7,10 a 25 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru a Lloegr) 1999 neu unrhyw ddiwygiadau iddynt.	Y Pennaeth Adfywio a Chynllunio neu'r Rheolwr Gwasanaethau Cynllunio

16. Caniatâd Ardal Gadwraeth gan gynnwys dymchwel adeiladau neu estyniadau iddynt.	Y Pennaeth Adfywio a Chynllunio neu'r Rheolwr Gwasanaethau Cynllunio
17. Mewn ymgynghoriad â Chadeirydd ac Is-gadeirydd y pwyllgor, cywiro neu ddiwygio caniatadau i gymryd i ystyriaeth gwallau neu hepgoriadau neu fân ddiwygiadau na chânt eu hystyried yn y pwyllgor nad ydynt yn effeithio'n sylweddol ar natur y penderfyniad a wnaed ar gyfer y caniatâd a roddwyd.	Y Pennaeth Adfywio a Chynllunio neu'r Rheolwr Gwasanaethau Cynllunio
18. Penderfynu ar bob cais am ganiatâd cynllunio, materion a gedwir yn ôl, caniatâd adeilad rhestredig, caniatâd ardal gadwraeth, caniatâd gorchymyn diogelu coed, caniatâd hysbysebu a phob mater arall a gyflwynir ar gyfer penderfyniad, cais ffurfiol neu sylw gan yr awdurdod cynllunio lleol o dan y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref berthnasol a deddfwriaeth gysylltiedig, **AC EITHRIO**:-	Y Pennaeth Adfywio a Chynllunio neu'r Rheolwr Gwasanaethau Cynllunio
(a) dylai unrhyw gais mae unrhyw Aelod yn gofyn amdano'n ysgrifenedig i'r Pennaeth Adfywio a Chynllunio cyn pen 21 diwrnod ar ôl cyhoeddi'r rhestr wythnosol sy'n cynnwys y cais, gael ei ystyried gan y Pwyllgor Cynllunio. (b) unrhyw gais lle argymhellir rhoi caniatâd yn groes i bolisïau cynllunio'r Cyngor. (c) dylai unrhyw gais sydd ym marn y Pennaeth Adfywio a Chynllunio neu'r Rheolwr Gwasanaethau Cynllunio yn debyg o fod yn ddadleuol neu o ddiddordeb sylweddol i'r cyhoedd gael ei benderfynu beth bynnag gan y Pwyllgor Cynllunio. (d) ceisiadau lle byddai'r penderfyniad yn gwrthdaro â	Y Pennaeth Adfywio a Chynllunio neu'r Rheolwr Gwasanaethau Cynllunio

gwrthwynebiad a gafwyd oddi wrth ymgynghorai statudol.	
19. Ystyried manylion a chynlluniau a gyflwynir yn unol ag amod a gymhwyswyd i ganiatâd cynllunio yn unol ag Adran 72 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, ac eithrio manylion a chynlluniau a gyflwynir fel 'materion a gedwir yn ôl' fel y'u diffinnir gan Erthygl 2 o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012	Y Pennaeth Adfywio a Chynllunio neu'r Rheolwr Gwasanaethau Cynllunio
20. Cyflawni'r holl agweddau beunyddiol eraill ar y swyddogaethau a restrir yng Nghylch Gorchwyl y Pwyllgor, y bydd y pŵer hwn yn cael ei arfer gan y Cyfarwyddwr priodol neu'r Pennaeth Adfywio a Chynllunio neu'r Rheolwr Gwasanaethau Cynllunio ar ôl ymgynghori â Chadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor	Y Pennaeth Adfywio a Chynllunio neu'r Rheolwr Gwasanaethau Cynllunio

GWEITHDREFN HERIO

1. Nid yw'r Weithdrefn hon ar gael ond mewn perthynas â rheoli datblygu a materion cysylltiedig os oes gan y Pwyllgor hwn bwerau dirprwyedig.

2. Nid yw'r Weithdrefn hon ar gael ond i unrhyw aelod nad yw'n aelod o'r Pwyllgor Cynllunio na all fynd i gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio os yw'r mater penodol sy'n destun yr her i gael ei ystyried am y tro cyntaf.

3. Lle bynnag y bo'n bosibl dylai unrhyw Her gael ei chyflwyno cyn pen 21 diwrnod ar ôl i'r mater ymddangos ar restr wythnosol y Cyngor o geisiadau ond beth bynnag heb fod yn hwyrach na 48 awr cyn yr amser a benodwyd ar gyfer y cyfarfod lle mae'r mater i gael ei ystyried.

4. Rhaid i'r Her:
   (a) fod yn ysgrifenedig a
   (b) chael ei hanfon at y Prif Weithredwr i ddod i law ganddo heb fod yn hwyrach na 48 awr cyn yr amser a bennwyd ar gyfer y cyfarfod a
   (c) rhaid iddi fod ar y ffurf ganlynol:

"Rwyf o'r farn y dylai caniatâd gael ei roi / wrthod / roi yn ddarostyngedig i'r amodau canlynol:
.....am y rheswm/rhesymau canlynol: ..... Os na fydd y Pwyllgor Cynllunio yn penderfynu yn unol â hynny, rwy'n mynnu i'w benderfyniad gael ei ohirio i'r cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Cynllunio"

CANLLAWIAU AR GYFER YMWELIADAU SAFLE

Diben archwiliadau safle

1 Ymarferion canfod ffeithiau yw archwiliadau safle i ganiatáu i'r aelodau wneud penderfyniad mwy gwybodus nag a fyddai'n bosibl o ddarllen adroddiad y swyddog ac ystyried y safbwyntiau a fynegir yng nghyfarfod y Pwyllgor Cynllunio.

2 Unig ddiben archwiliadau safle yw caniatáu i'r cadeirydd a'r is-gadeirydd a'r aelodau eraill edrych ar y safle a'i gyffiniau. Wrth gynnal yr ymweliad safle, ni fydd yr aelodau yn trafod y cais yn ffurfiol, yn mynegi barn ymlaen llaw, yn lobïo o blaid unrhyw benderfyniad penodol nac yn gwneud unrhyw benderfyniad.

Ceisiadau am archwiliadau safle gan y Pwyllgor

3 Os yw Aelodau eisiau i gais gael ei adrodd i'r Pwyllgor Cynllunio a bod yn destun ymweliad safle, dylent roi gwybod i'r swyddog achos neu yn ei absenoldeb i unrhyw swyddog arall o'r Tîm Rheoli Datblygu yn ysgrifenedig (gan gynnwys e-bost) cyn pen 21 diwrnod ar ôl cael y rhestr wythnosol o geisiadau cynllunio.

4 Dylid caniatáu ymweliadau safle ar sail cais oddi wrth y cadeirydd neu'r is-gadeirydd, neu oddi wrth unrhyw aelod lleol gan gynnwys Cynghorydd ward gyfagos p'un a yw'n aelod o'r pwyllgor neu beidio. Disgwylir y bydd aelodau lleol yn gyfarwydd â'r safle eisoes. Anogir aelodau i fynd i'r safleoedd eu hunain, trafod cynigion gyda swyddogion, ac edrych ar y cyflwyniad mae swyddogion erbyn hyn yn ei anfon trwy e-bost at Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio cyn cyfarfodydd y Pwyllgor.

5 Gall ymweliadau safle hefyd gael eu trefnu ar gais y Pennaeth Cynllunio ac Adfywio neu'r Rheolwr Rheoli Datblygu pan fônt yn barnu bod yna faterion o bwys penodol yn ymwneud â'r safle y dylai aelodau fod yn ymwybodol ohonynt cyn penderfynu ar y cais.

Meini prawf ar gyfer cytuno i gynnal archwiliadau safle

6 Bydd rhaid i unrhyw gais am ymweliad safle ffurfiol gydymffurfio â'r meini prawf canlynol:-

- Nid yw'r deunydd darluniadol yn ddigon i gyfleu'r materion o bwys;
- Mae angen barn ar yr effaith weledol;
- Mae'r lleoliad a'r cyffiniau'n berthnasol i'r gwaith o benderfynu ar y cais;
- Nid yw'r Pwyllgor Cynllunio wedi ymweld â'r safle yn ddiweddar mewn perthynas â chais cynllunio arall.

7 Ni fydd ceisiadau am ymweliadau safle ffurfiol a gyflwynir mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio yn cael eu caniatáu ond o dan amgylchiadau eithriadol e.e.

lle na all Cynghorydd roi gwybod i swyddogion am yr angen am ymweliad safle pan gyhoeddwyd y cais am ganiatâd cynllunio gyntaf.

Mae enghreifftiau o ble na fyddai ymweliad safle'n briodol fel arfer yn cynnwys:

- Os yw'r aelod yn anghytuno'n unig â'r casgliad y daethpwyd iddo yn yr adroddiad.
- Os yw'r aelod eisiau ystyried anghydfodau mewn perthynas â therfyn neu rhwng cymdogion.
- Gostyngiad yng ngwerth eiddo
- Unrhyw faterion nad ydynt yn ystyriaethau cynllunio perthnasol.
- Os yw cynghorwyr eisoes wedi ymweld â'r safle yn ystod y 12 mis diwethaf, ac eithrio o dan amgylchiadau eithriadol.

Os oes unrhyw anghydfod ynghylch yr angen am ymweliad safle, bydd y penderfyniad terfynol yn cael ei wneud gan Gadeirydd a/neu Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Cynllunio ac Adfywio a/neu'r Rheolwr Rheoli Datblygu.

Rhoi gwybod am ymweliadau safle

8 Cynhelir pob ymweliad safle ar y dydd Llun cyn cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio ar gyfer ceisiadau sy'n cael eu hadrodd i'r Pwyllgor hwnnw. Os nad yw'n ymarferol cynnal yr holl ymweliadau safle a gymeradwywyd ar y dydd Llun cyn cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio, gall yr ymweliad(au) gael eu cynnal ar unrhyw ddiwrnod ar yr amod y cynhelir yr ymweliad(au) cyn cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio y mae'r cais/ceisiadau yn cael ei adrodd/eu hadrodd iddo. Bydd gan bob Aelod (yn amodol ar ddatganiadau o fuddiant) hawl i fynd ar ymweliadau safle, ac anogir holl Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio i fod yn bresennol.

Bydd Gwasanaethau Pwyllgorau'n trefnu'r ymweliadau safle, ond ni fyddant yn bresennol i gymryd cofnodion. Bydd nodyn byr yn cael ei baratoi gan Swyddogion Cynllunio ac yn cael ei gyflwyno i gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio, yn cadarnhau bod ymweliad safle wedi cael ei gynnal ac yn rhoi crynodeb o unrhyw wybodaeth ychwanegol a gafwyd neu faterion yn codi o'r ymweliad safle.

Presenoldeb mewn Archwiliadau Safle

9 Fel arfer yn bresennol mewn ymweliadau safle bydd cadeirydd ac is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio, aelodau ward a swyddogion priodol. Bydd pob Aelod (yn amodol ar ddatganiadau o fuddiant) yn cael ei annog i fynd ar yr ymweliadau safle a bydd holl Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio yn cael eu hannog i fod yn bresennol.

10 Caiff Aelodau, trwy'r cadeirydd, ofyn cwestiynau i'r swyddogion er mwyn egluro materion ffeithiol sy'n berthnasol i'r archwiliad safle.

11 Os daw cais i law oddi wrth drydydd parti i archwilio'r safle o leoliad gwahanol, dylai'r aelodau, fel grŵp, benderfynu ynghylch gwneud hynny. Onid oes rhesymau da dros beidio â gwneud, dylid fel arfer cytuno i gais o'r fath, ond dim ond os rhoddir yr un gwahoddiad i'r holl bobl sy'n cymryd rhan yn yr archwiliad safle.

12 Ni chaiff Aelodau fynd ar y safle ond gyda chaniatâd perchennog y safle, sydd â hawl i fod yn bresennol yn yr archwiliad safle.

13 Nid oes gan y cyhoedd hawl mynediad i safle ond cânt fod yn bresennol ac edrych ar y safle o wylfannau cyhoeddus neu ar y safle gyda chydsyniad y perchennog.

14 Ni chaniateir i geiswyr, eu hasiantau na'r cyhoedd siarad yn yr ymweliadau safle ac eithrio i gyfleu materion o wybodaeth neu eglurhad; bydd y cyfarfod anffurfiol â'r cyhoedd sydd wedi dod yn rhan o arferion cwsmeriaid y Cyngor yn dod i ben er mwyn i'r ymweliadau safle gael eu cynnal mewn modd mwy ffurfiol.

15 Os yw aelod yn barnu bod angen ymweld â safle ar ei ben ei hun, bydd yn edrych arno o wylfannau cyhoeddus yn unig, yn ceisio osgoi trafodaeth â phartïon â buddiant ac, os oes deialog yn digwydd, yn egluro y bydd penderfyniad yn cael ei wneud pan fydd y Pwyllgor Cynllunio wedi ei drafod ar ôl yr archwiliad safle.

16 Atgoffir aelodau bod y rheolau ar ddatganiadau o fuddiant yn berthnasol i ymweliadau safle, ac os oes gan aelod fuddiant a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i'r aelod adael cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio, nid oes gan yr aelod hawl i fod yn bresennol yn y cyfarfod safle.

Ymddygiad mewn archwiliadau safle

17 Bydd yr archwiliad yn cael ei gadeirio gan gadeirydd neu is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio a fydd yn sicrhau y caiff ei gynnal fel un cyfarfod ac mewn modd trefnus.

18 Bydd y swyddog cynllunio yn rhoi crynodeb byr o'r cais a'r materion yn ymwneud â'r archwiliad safle ar ddechrau pob ymweliad safle.

19 Rhaid i aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio sy'n bresennol yn yr archwiliad safle beidio â gwneud sylwadau a fyddai'n creu'r argraff eu bod eisoes wedi ffurfio barn ar rinweddau'r cais.

20 Rhaid i aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio beidio â thrafod y cais, heblaw er mwyn egluro materion o ffaith, a rhaid iddynt beidio â gwneud penderfyniad tra byddant ar y safle.

21 Caiff aelodau nad ydynt yn aelodau o'r Pwyllgor siarad â'u cyd-aelodau am faterion o ffaith sy'n gysylltiedig â chyd-destun y safle.

PWYLLGOR TRWYDDEDU A HAPCHWARAE

Cylch Gorchwyl

1. Cyflawni swyddogaethau pwyllgor trwyddedu fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Trwyddedu 2003 a Deddf Gamblo 2005 ac awdurdodi, cymeradwyo neu benderfynu ar unrhyw faterion gorfodi o dan y Deddfau;

PWERAU A DDIRPRWYIR I'R PWYLLGOR

Yr holl faterion y cyfeirir atynt ym mharagraff 1 uchod, gan gynnwys pŵer i ddirprwyo i is-bwyllgor y pŵer i benderfynu ar faterion o fewn Cylch Gwaith y Pwyllgor.

PWERAU A DDIRPRWYIR I SWYDDOGION

PŴER	DIRPRWYIR I
Yr holl faterion sy'n codi o'r gwaith o gyflawni cylch gorchwyl y Pwyllgor (gan gynnwys y pŵer i roi trwyddedau), gyda'r pŵer i sefydlu un neu ragor o is-bwyllgorau yn unol ag Adran 9 o Ddeddf Trwyddedu 2003, a phwerau o dan Ddeddf Gamblo 2005 a phŵer i ddirprwyo ei swyddogaethau o dan Ddeddf Trwyddedu 2003, ac o dan Ddeddf Gamblo 2005 i is-bwyllgor neu i un o swyddogion yr awdurdod.	Y Prif Weithredwr neu Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol neu unrhyw un o'r swyddogion canlynol:- Rheolwr Trwyddedu a Rheolwr Trwyddedu Cynorthwyol, Uwch Weinyddwr Trwyddedu, Gweinyddwr Trwyddedu Rheolwr Safonau Masnach, Trwyddedu a Chofrestrwyr Rheolwr Iechyd yr Amgylchedd *Uwch Swyddog Safonau Masnach *Uwch Swyddog Iechyd yr Amgylchedd *Swyddog Safonau Masnach *Uwch Swyddog Masnachu Teg *Swyddog Iechyd yr Amgylchedd *Uwch Swyddog Diogelwch Masnachol *Swyddog Diogelwch Masnachol *Swyddog Masnachu Teg *Swyddog Gorfodi (Mae swyddogion a nodir â * lle bo'n briodol wedi'u penodi o dan Adran 19(1) o Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 neu unrhyw ddiwygiad statudol iddi)]
Mae'r swyddogion canlynol wedi'u dynodi fel rhai awdurdodedig at ddibenion Deddf Trwyddedu 2003, a dibenion Deddf Gamblo 2005, a rhoddir iddynt bwerau dirprwyedig i weithredu yn rhinwedd y swydd honno.	Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd Rheolwr Iechyd yr Amgylchedd Rheolwr Safonau Masnach, Trwyddedu a Chofrestrwyr Rheolwr Trwyddedu Rheolwr Trwyddedu Cynorthwyol Uwch Swyddog Iechyd yr Amgylchedd Swyddog Iechyd yr Amgylchedd

	Uwch Swyddog Safonau Masnach Swyddog Safonau Masnach Uwch Swyddog Masnachu Teg Swyddog Masnachu Teg Swyddog Gwyddonol Uwch Swyddog Diogelwch Masnachol Swyddog Diogelwch Masnachol Wardeiniaid Diogelwch Cymunedol Swyddog Gorfodi

Ar 24 Ionawr 2017 cymeradwyodd y Cyngor y materion gweithdrefnol canlynol mewn perthynas â'r Pwyllgor Trwyddedu a Gamblo a'r is-bwyllgor Trwyddedu a Gamblo, gan gynnwys newid gweithdrefnol i Reolau Sefydlog y Cyngor, fel a ganlyn: -

(a) y cworwm ar gyfer yr is-bwyllgor Trwyddedu a Gamblo yw dau. Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod gan yr is-bwyllgor dri aelod yn bresennol wrth ymdrin â chais ond mae'n anochel y bydd rhai amgylchiadau pan na fydd aelod yn gallu bod yn bresennol ar y funud olaf ac na ellir dod o hyd i eilydd neu y bydd angen i aelod ddatgan buddiant rhan o'r ffordd trwy'r gwrandawiad a'i adael. Yn unol â'n Rheolau Sefydlog, bydd pleidlais fwrw gan y cadeirydd;

(b) y bydd aelodau sy'n gwasanaethu ar yr is-bwyllgor Trwyddedu a Gamblo yn cael eu tynnu yn eu tro o blith holl aelodau'r Pwyllgor Trwyddedu a Gamblo. Bydd hyn yn rhoi i bob aelod gyfle cyfartal i gyfrannu at waith y Pwyllgor a gobeithio y bydd yn sicrhau tegwch i'r aelodau o ran y galwadau arnynt i eistedd ar yr is-bwyllgor;

(c) nad yw cadeirydd ac is-gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu a Gamblo ar yr is-bwyllgor Trwyddedu a Gamblo o angenrheidrwydd ond y byddant yn rhan o'r cylchdro arferol;

(d) bod y cyfyngiad cyfredol yn y Rheolau Sefydlog, sy'n gwahardd cyfarfod rhag eistedd am fwy na phedair awr, yn cael ei ddileu o'r Pwyllgor Trwyddedu a Gamblo neu ei is-bwyllgor, yn amodol ar ofyniad i'r Pwyllgor gymryd seibiau priodol, er mwyn sicrhau cysur y rheiny sy'n cymryd rhan yn y cyfarfod.

PWYLLGOR TACSIS A CHYFFREDINOL

Cylch Gorchwyl

1. Cyflawni ar ran y Cyngor yr holl faterion sy'n ymwneud â rhoi, gwrthod, dyroddi, dirymu, diddymu ac atal dros dro drwyddedau a heb ragfarnu cyffredinolrwydd yr uchod cyflawni'r swyddogaethau hyn mewn perthynas â:

   a) Gweithredwyr Hurio Preifat.
   b) Gyrwyr Cerbydau Hurio Preifat a Cherbydau Hacni.
   c) Cerbydau Hurio Preifat.
   d) Cerbydau Hacni
   e) Hypnotiaeth
   f) Cofrestriadau Loterïau
   g) Casgliadau ar y Stryd.
   h) Casgliadau o Dŷ i Dŷ.
   i) Masnachu ar y Stryd.
   j) Siopau Rhyw a Lleoliadau Adloniant Rhywiol.
   k) Claddedigaethau mewn Mynwentydd Cyhoeddus.
   l) Cronfeydd Dŵr.
   m) Anifeiliaid Gwyllt Peryglus.
   n) Sefydliadau Lletya Anifeiliaid.
   o) Cŵn Gwarchod.
   p) Aciwbigo / Tyllu Cosmetig / Electrolysis / Tatwio / Lliwio Croen yn Lled-barhaol.
   q) Anifeiliaid Perfformio.
   r) Siopau Anifeiliaid Anwes.
   s) Sŵau.
   t) Meysydd Gwersylla.
   u) Meysydd Carafanau.
   v) Cychod Pleser.
   w) Deunyddiau Llenwi.
   x) Sefydliadau Marchogaeth.
   y) Elusennau i Bobl Anabl ac Elusennau Rhyfel.
   z) Ffrwydron.
   aa) Tân Gwyllt.
   bb) Petrolewm.
   cc) Priodasau a Phartneriaethau Sifil.
   dd) Y materion a nodir yn Rhan B o Atodlen 1 i Reoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2007 i'r graddau nad ydynt wedi'u llywodraethu gan Ddeddf Trwyddedu 2003 a/neu Ddeddf Gamblo 2005 neu wedi'u dirprwyo ar wahân o dan Ran 3 o Gyfansoddiad y Cyngor.
   ee) Unrhyw faterion eraill a fydd o dro i dro o dan statud neu arfer i gael eu hystyried gan y Cyngor mewn modd lled-farnwrol, ac eithrio apeliadau ac achwyniadau cyflogaeth i'r graddau nad ydynt wedi'u llywodraethu gan Ddeddf Trwyddedu 2003 a/neu Ddeddf Gamblo 2005 neu wedi'u dirprwyo ar wahân o dan Ran 3 o Gyfansoddiad y Cyngor.

PWERAU A DDIRPRWYIR I'R PWYLLGOR

Yr holl faterion a restrir uchod, gan gynnwys pŵer i ddirprwyo i is-bwyllgor y pŵer i benderfynu ar faterion o fewn Cylch Gorchwyl y Pwyllgor.

PWERAU A DDIRPRWYIR I SWYDDOGION

PŴER	DIRPRWYIR I
Yr holl faterion sy'n codi o'r gwaith o gyflawni cylch gorchwyl y Pwyllgor (gan gynnwys y pŵer i roi trwyddedau).	Y Prif Weithredwr neu Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol neu unrhyw un o'r swyddogion canlynol:- Rheolwr Trwyddedu a Rheolwr Trwyddedu Cynorthwyol, Uwch Weinyddwr Trwyddedu, Gweinyddwr Trwyddedu Rheolwr Safonau Masnach, Trwyddedu a Chofrestrwyr Rheolwr Iechyd yr Amgylchedd *Uwch Swyddog Safonau Masnach *Uwch Swyddog Iechyd yr Amgylchedd *Swyddog Safonau Masnach *Uwch Swyddog Masnachu Teg *Swyddog Iechyd yr Amgylchedd *Uwch Swyddog Diogelwch Masnachol *Swyddog Diogelwch Masnachol *Swyddog Masnachu Teg *Swyddog Gorfodi Rheolwr Parciau Dros Dro (Mae swyddogion a nodir â * *lle bo'n briodol* wedi'u penodi o dan Adran 19(1) o Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 neu unrhyw ddiwygiad statudol iddi)]

Ar 24 Ionawr 2017 cymeradwyodd y Cyngor y materion gweithdrefnol canlynol mewn perthynas â'r Pwyllgor Tacsis a Chyffredinol a'r is-bwyllgor Tacsis a Chyffredinol, gan gynnwys newid gweithdrefnol i Reolau Sefydlog y Cyngor, fel a ganlyn: -

(a) y cworwm ar gyfer yr is-bwyllgor Tacsis a Chyffredinol yw dau. Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod gan yr is-bwyllgor dri aelod yn bresennol wrth ymdrin â chais ond mae'n anochel y bydd rhai amgylchiadau pan na fydd aelod yn gallu bod yn bresennol ar y funud olaf ac na ellir dod o hyd i eilydd neu y bydd angen i aelod ddatgan buddiant rhan o'r ffordd trwy'r gwrandawiad a'i adael. Yn unol â'n Rheolau Sefydlog, bydd pleidlais fwrw gan y cadeirydd;

(b) y bydd aelodau sy'n gwasanaethu ar yr is-bwyllgor Tacsis a Chyffredinol yn cael eu tynnu yn eu tro o blith holl aelodau'r Pwyllgor Tacsis a

Chyffredinol. Bydd hyn yn rhoi i bob aelod gyfle cyfartal i gyfrannu at waith y Pwyllgor a gobeithio y bydd yn sicrhau tegwch i'r aelodau o ran y galwadau arnynt i eistedd ar yr is-bwyllgor;

(c) nad yw cadeirydd ac is-gadeirydd y Pwyllgor Tacsis a Chyffredinol ar yr is-bwyllgor Tacsis a Chyffredinol o angenrheidrwydd ond y byddant yn rhan o'r cylchdro arferol;

(d) bod y cyfyngiad cyfredol yn y Rheolau Sefydlog, sy'n gwahardd cyfarfod rhag eistedd am fwy na phedair awr, yn cael ei ddileu o'r Pwyllgor Tacsis a Chyffredinol neu ei is-bwyllgor, yn amodol ar ofyniad i'r Pwyllgor gymryd seibiau priodol, er mwyn sicrhau cysur y rheiny sy'n cymryd rhan yn y cyfarfod.

c) PWYLLGOR HAWLIAU TRAMWY

Peidiodd swyddogaethau Pwyllgor Hawliau Tramwy (y Cyngor) â bod ar 16 Chwefror 2007 oherwydd newidiadau mewn deddfwriaeth. Cyflawnir y swyddogaeth yn awr gan bwyllgor o'r Cabinet – gweler y cofnod yn Rhan 3 o'r Cyfansoddiad hwn.

d) PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Cylch Gorchwyl

1. AELODAETH

1.1 Bydd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio aelodaeth o ddeuddeg unigolyn; bydd wyth yn aelodau etholedig sy'n gynrychioladol o'r holl grwpiau gwleidyddol a bydd pedwar aelod cyfetholedig lleyg sydd i gael eu penodi gan y Pwyllgor. Ni chaiff mwy nag un aelod Cabinet fod yn aelod o'r Pwyllgor hwn. Ni chaiff yr aelod Cabinet fod yr Arweinydd.

1.2 Mae'r aelodau cyfetholedig, nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor, i gael eu recriwtio oherwydd sgiliau sy'n briodol i waith y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, a byddant yn cael eu penodi gan yr aelodau o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio sy'n Gynghorwyr am gyfnod penodol i gael ei bennu ganddynt pan wneir y penodiad.

1.3 Yn ôl yr angen bydd y gwaith o benodi aelodau lleyg i'r Pwyllgor yn cael ei gyflawni gan banel penodi sy'n cynnwys tri aelod o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, gan gynnwys y Cadeirydd. Bydd y panel yn gyfrifol am ystyried yr holl geisiadau am y swydd, llunio rhestr fer, cyfweld â darpar ymgeiswyr a phenodi.

1.4 Bydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn penodi ei gadeirydd y mae'n rhaid iddo fod yn aelod lleyg. Ni chaiff y Dirprwy Gadeirydd fod yn aelod o'r Cabinet.

1.5 Bydd pleidlais gan bob aelod o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

2. CYFARFODYDD

2.1 Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod o leiaf 4 gwaith y flwyddyn. Mae'n bosibl y gelwir cyfarfodydd ychwanegol fel y barno'r cadeirydd yn angenrheidiol neu pan fo'r Awdurdod yn gyfan yn penderfynu y dylai wneud.

2.2 Cworwm i'r cyfarfodydd fydd chwarter yr holl aelodau.

2.3 Bydd y Pwyllgor yn cael ei gynghori gan y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol, y Swyddog Adran 151, y Pennaeth Cyllid Corfforaethol, y Pennaeth Gwella Busnes a'r archwilwyr allanol a mewnol. Yn ogystal caiff, o fewn cyllideb gymeradwy, geisio cyngor annibynnol o'r tu allan i'r awdurdod.

2.4 Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod ag archwilydd allanol y Cyngor yn anffurfiol fel y barno'r Pwyllgor yn angenrheidiol i drafod a chyfnewid gwybodaeth.

2.5 Bydd gan y Swyddog Adran 151, y Rheolwr Archwilio Mewnol a chynrychiolydd yr Archwilydd Allanol fynediad dilyffethair a chyfrinachol at Gadeirydd y Pwyllgor.

2.6 Bydd gan archwilwyr allanol a mewnol y Cyngor yr hawl i ofyn i gadeirydd y pwyllgor archwilio ystyried unrhyw fater y bydd yr archwilwyr yn credu y dylid ei ddwyn i sylw'r Cyngor.

2.7 Caiff y Pwyllgor ofyn i unrhyw swyddogion eraill ymbresenoli i'w gynorthwyo â'i drafodaethau ar unrhyw fater penodol.

3. CYLCH GORCHWYL

3.1 Adolygu a chraffu ar faterion ariannol yr Awdurdod, llunio adroddiadau a gwneud argymhellion mewn perthynas â materion ariannol yr Awdurdod, ac adolygu ac ystyried y datganiadau ariannol sy'n cael eu paratoi gan yr Awdurdod neu ei archwilwyr allanol.

3.1.1 adolygu polisïau a gweithdrefnau cyfrifyddu'r awdurdod gyda golwg ar briodoldeb a chydymffurfiaeth.

3.1.2 darparu cyfeiriad ynghylch cofnodion cyfrifyddu a systemau rheolaeth fel y bo'n ofynnol gan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005.

3.1.3 ystyried adroddiad yr archwilwyr allanol i'r rheiny sydd â chyfrifoldeb am lywodraethu ar faterion sy'n codi o'r archwiliad o'r datganiadau ariannol.

3.1.4 adolygu ac ystyried effeithiolrwydd polisi'r Cyngor ar atal twyll a llygredigaeth.

3.2 Adolygu ac asesu'r trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol a chyflwyno adroddiadau a gwneud argymhellion ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau hynny:

3.2.1 sicrhau bod gan yr awdurdod system gadarn o reolaeth fewnol sy'n hwyluso'r gwaith o arfer swyddogaethau'n effeithiol ac sy'n cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg a rheoli ariannol digonol ac effeithiol. Adolygu effeithiolrwydd rheolaeth fewnol o leiaf unwaith y flwyddyn a chymeradwyo datganiad llywodraethu blynyddol i gael ei gynnwys gyda datganiad cyfrifon yr awdurdod.

3.2.2 wrth adolygu materion sy'n ymwneud â llywodraethu corfforaethol, rheoli risg neu reolaeth fewnol caiff y pwyllgor ei gwneud yn ofynnol i unrhyw un o aelodau neu swyddogion yr awdurdod ddod ger ei fron i esbonio mewn perthynas â materion o fewn ei gylch gwaith e.e. cydymffurfiaeth neu fel arall â gweithdrefnau'r Cyngor, cydymffurfiaeth neu fel arall â safonau sefydledig llywodraethu corfforaethol a'r graddau yr ystyriwyd ac yr aed i'r afael â risg.

3.2.3 goruchwylio a monitro'r gofynion o ran cydymffurfiaeth a sicrwydd a bodloni ei hun ynghylch digonolrwydd y strwythurau, prosesau a chyfrifoldebau am ganfod a rheoli risgiau allweddol mae'r sefydliad yn eu hwynebu.

3.2.4 adolygu fframwaith llywodraethu corfforaethol y Cyngor.

3.2.5 cael, adolygu a chymeradwyo'r datganiad llywodraethu blynyddol a'r cynlluniau gweithredu a ddaw yn ei sgil.

3.2.6 datblygu ac adolygu'n rheolaidd strategaeth rheoli risg i'r Cyngor gan gynnwys methodoleg ar gyfer asesu risgiau ym mhob un o swyddogaethau'r Cyngor.

3.2.7 goruchwylio a monitro gweithgareddau'r Cyngor sy'n ddarostyngedig i reoliadau'r Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio.

3.2.8 goruchwylio a monitro canlyniadau cwynion a ddaw i law'r Awdurdod o dan Bolisi Cwynion Corfforaethol y Cyngor ac adolygu'r polisi pob blwyddyn a gwneud sylwadau ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y polisi.

3.3 Goruchwylio trefniadau archwilio mewnol ac allanol y Cyngor

3.3.1 cysylltu â Swyddfa Archwilio Cymru ynghylch penodi archwilwyr allanol

3.3.2 ystyried cynllun archwilio arfaethedig yr archwilwyr allanol

3.3.3 ystyried Llythyr Blynyddol yr archwilwyr allanol

3.3.4 cymeradwyo, ar ran y Cyngor, datganiad o nodau ac amcanion y swyddogaeth archwilio mewnol

3.3.5 ystyried y cynllun archwilio blynyddol o ran dyrannu adnoddau archwilio mewnol i'r gwahanol gategorïau gwaith

3.3.6 sicrhau bod gan y swyddogaeth archwilio mewnol ddigon o adnoddau a bod ganddi statws priodol yn y sefydliad

3.3.7 ystyried adroddiad blynyddol a barn y Pennaeth Archwilio Mewnol, a chrynodeb o weithgarwch archwilio mewnol (gwir ac arfaethedig) a'r lefel sicrwydd y gall ei rhoi dros amgylchedd rheolaeth fewnol y Cyngor

PWERAU A DDIRPRWYIR I'R PWYLLGOR

Yr holl faterion a restrir uchod o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

PWERAU A DDIRPRWYIR I SWYDDOGION

PŴER	DIRPRWYIR I
Yr holl faterion sy'n codi o'r gwaith o gyflawni cylch gorchwyl y Pwyllgor.	Y Prif Weithredwr neu Gyfarwyddwr neu'r Pennaeth Cyllid Corfforaethol ar ôl ymgynghori â Chadeirydd neu Is-gadeirydd y Pwyllgor. Caiff unrhyw swyddog a grybwyllir uchod awdurdodi yn ysgrifenedig y caiff unrhyw swyddogaeth ddirprwyedig a roddwyd iddo ei arfer gan unrhyw swyddog a enwir yn yr awdurdodiad hwnnw.

e) Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd

Cylch Gorchwyl

9.1 Bydd gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd y gofynion a swyddogaethau canlynol:

(a)

(i) Bydd pob Aelod o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn Aelod o'r Cyngor; ac

Ni fydd mwy nag un Aelod o'r pwyllgor yn Aelod o'r weithrediaeth a rhaid i'r aelod hwnnw o'r weithrediaeth beidio â bod yr Arweinydd.

ii) Bydd pob Aelod o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn cael ei benodi gan y Cyngor llawn.

(iii) Bydd Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn cael ei benodi gan y Cyngor llawn.

(b) Mae'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn gorff y mae Adran 15 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (dyletswydd i ddyrannu seddi i grwpiau gwleidyddol) yn berthnasol iddo.

(c) Rhaid i Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd beidio â bod yn aelod o 'grŵp y Weithrediaeth'.

(d) Caiff y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd benodi un neu ragor o is-bwyllgorau, a chaiff drefnu i unrhyw un o'i swyddogaethau gael ei chyflawni gan is-bwyllgor o'r fath.

e) Ni chaiff unrhyw un o is-bwyllgorau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd gyflawni swyddogaethau heblaw'r rheiny a roddwyd iddo.

(f) Mae'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i benodi'r person sydd i gadeirio unrhyw un o is-bwyllgorau Pwyllgor o'r fath.

(g) Caiff pob Aelod o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, neu o un o is-bwyllgorau'r pwyllgor, bleidleisio ar unrhyw gwestiwn sy'n dod i ran y Pwyllgor i benderfynu arno.

(h) Caiff y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ei gwneud yn ofynnol i aelodau a swyddogion y Cyngor ddod ger ei fron i ateb cwestiynau; mae dyletswydd ar aelodau a swyddogion o'r fath i gydymffurfio â hyn ond nid oes rhwymedigaeth arnynt i ateb unrhyw gwestiynau y byddai ganddynt hawl i wrthod eu hateb mewn achos llys yng Nghymru a Lloegr. Caiff y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd wahodd pobl eraill i ddod i gyfarfodydd y pwyllgor.

(i) Rhaid i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd gyfarfod o leiaf unwaith ym mhob blwyddyn galendr.

(j) Rhaid i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd gyfarfod os yw'r Cyngor yn penderfynu y dylai gyfarfod.

(k) Caiff o leiaf un traean o'r aelodau o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ofyn am gyfarfod trwy roi rhybudd ysgrifenedig i gadeirydd y pwyllgor.

(l) Rhaid i Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd sicrhau y cynhelir cyfarfodydd yn unol â'r gofynion a nodir ym mharagraffau (i) - (k) uchod.

(m)

(i) Dynodi un o Swyddogion y Cyngor i fod yn Bennaeth Gwasanaethau Democrataidd (ni chaiff hwnnw fod y Prif Weithredwr, Swyddog Monitro na Phrif Swyddog Cyllid (fel y'u diffinnir yn Neddf Llywodraeth Leol a Thai 1989). Bydd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn cyflawni'r swyddogaethau a nodir yn Adran 9(1) o'r Mesur;

(ii) adolygu digonolrwydd darpariaeth y Cyngor o staff, adeiladau ac adnoddau eraill i gyflawni swyddogaethau Gwasanaethau Democrataidd; a

(iii) chyflwyno adroddiadau a gwneud argymhellion i'r Cyngor mewn perthynas â darpariaeth o'r fath.

(n) Penderfynu sut y mae'n arfer ei swyddogaethau a restrir ym mharagraffau (m)(i)(ii)(iii) uchod a pheidio ag arfer unrhyw swyddogaethau heblaw'r rhai a nodir yn y Cylch Gorchwyl hwn.

(o) Cyflwyno adroddiadau a gwneud argymhellion ynghylch gweithgareddau cynefino i Aelodau ar ôl etholiadau lleol.

(p) Sicrhau rhaglen o gyfleoedd hyfforddiant a datblygiad rhesymol i Gynghorwyr ac aelodau cyfetholedig a chyflwyno adroddiadau a gwneud argymhellion i'r Cyngor llawn yn ôl yr angen.

(q) Monitro ansawdd a gwerth hyfforddiant a datblygiad yr Aelodau.

(r) Monitro aelodaeth y Cyngor o Freinlen Cynorthwyo a Datblygu Cynghorwyr Cymru CLlLC.

(s) Enwebu Hyrwyddwr Datblygiad Aelodau o blith aelodau'r Pwyllgor.

(t) Bod yn ymgynghorai ar adroddiadau a gyhoeddir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (neu gyrff eraill) ynghylch cyflogau, treuliau a lwfansau Aelodau.

(u) Cyflwyno adroddiadau a gwneud argymhellion ynghylch y cymorth a chyngor a ddarperir i unrhyw wasanaeth cymorth Aelodau arall.

(v) Cynorthwyo Swyddog Monitro'r Cyngor i adolygu a gwneud argymhellion ynghylch Cyfansoddiad y Cyngor.

(w) Adolygu a gwneud argymhellion ynghylch disgrifiadau rôl Aelodau.

(x) Adolygu a gwneud argymhellion ynghylch Adroddiadau Blynyddol Aelodau.

(y) Adolygu a gwneud argymhellion ynghylch Gwe-ddarlledu a Phresenoldeb O Bell.

(z) Adolygu a gwneud argymhellion ynghylch rhaglen ac amseriad cyfarfodydd y Cyngor.

(aa) Adolygu a gwneud argymhellion ynghylch Polisi a darpariaeth TGCh y Cyngor i Aelodau.

(bb) Adolygu a gwneud argymhellion ynghylch polisi absenoldeb teuluol Aelodau.

(cc) Adolygu a gwneud argymhellion ynghylch yr Hyrwyddwr Ieuenctid.

(dd) Adolygu a gwneud argymhellion i hyrwyddo cynnwys y cyhoedd ym musnes y Cyngor.

(ee) Bod yn ymgynghorai ar adroddiadau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru, y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol a'r Comisiwn Etholiadol (neu gyrff eraill) ynghylch ffiniau wardiau, ffiniau awdurdodau lleol a threfniadau etholiadol.

(ff) Ystyried unrhyw adroddiad neu argymhelliad a anfonir at ei aelodau sydd wedi'i baratoi gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd o dan Adran 9(1)(h) o'r Mesur mewn cyfarfod a gynhelir dim mwy na thri mis ar ôl i gopïau o'r adroddiad gael eu hanfon gyntaf at aelodau'r pwyllgor.

(gg) Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl iddo baratoi adroddiad neu wneud argymhelliad o dan baragraff (ff) uchod, trefnu i gopi ohono gael ei anfon at bob Aelod o'r Cyngor nad yw'n Aelod o'r Pwyllgor.

(hh) Rhaid i'r Cyngor ystyried unrhyw adroddiad neu argymhelliad mewn cyfarfod a gynhelir dim mwy na thri mis ar ôl i gopïau o'r adroddiad neu argymhelliad gael eu hanfon gyntaf at Aelodau'r Cyngor.

(ii) Rhoi sylw i ganllawiau ffurfiol a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru.

(jj) Dylai Datblygiad a Hyfforddiant Aelodau fod yn rhan o bortffolio Aelod Gweithredol sy'n eistedd ar y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd

(kk) Goruchwylio Cyfansoddiad y Cyngor.

PWERAU A DDIRPRWYIR I'R PWYLLGOR

Yr holl faterion a restrir uchod o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

PWERAU A DDIRPRWYIR I SWYDDOGION

PŴER	DIRPRWYIR I
Yr holl faterion sy'n codi o'r gwaith o gyflawni cylch gorchwyl y Pwyllgor.	Y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd mewn ymgynghoriad â Chadeirydd neu Is-gadeirydd y Pwyllgor

Erthygl 9 – Y Pwyllgor Safonau

Cyfeiriadau:

Adrannau 53-55 ac Adrannau 81(5), Deddf Llywodraeth Leol 2000
Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) (Diwygio) 2001 fel y'u diwygiwyd ("y Rheoliadau")
Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013

9.01 Pwyllgor Safonau

(a) Bydd y Cyngor yn sefydlu Pwyllgor Safonau gyda'r Cylch Gorchwyl a phwerau dirprwyedig i'r Pwyllgor, a swyddogion, a nodir isod:

Noder: Caiff dau neu ragor o Gynghorau sefydlu Cyd-bwyllgor Safonau.

9.02 Aelodaeth

(a) Aelodaeth. Bydd gan y Pwyllgor Safonau wyth aelod, a fydd yn cynnwys:

i. pum aelod 'annibynnol', nad ydynt yn un o gynghorwyr neu swyddogion nac yn briod ag un o gynghorwyr neu swyddogion y Cyngor hwn neu unrhyw awdurdod perthnasol arall fel y'i diffinnir gan y Ddeddf, a benodir yn unol â'r weithdrefn a nodir yn Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) (Diwygio) 2001 (mae meini prawf penodi'r Cyngor yn eithrio rhywun sy'n aelod gweithredol o blaid wleidyddol);
ii dau gynghorydd ac eithrio unrhyw aelod o'r Weithrediaeth;
iii. un aelod o gyngor cymuned sydd yn gyfan gwbl neu gan fwyaf yn ardal y Cyngor ('aelod cyngor cymuned').

(b) Cyfnod swydd.

i. Penodir aelodau annibynnol am gyfnod o ddim llai na phedair blynedd ac mae modd iddynt gael eu hail-benodi am un cyfnod dilynol arall o hyd at bedair blynedd yn unig.

ii. Bydd gan aelodau o'r awdurdod lleol sy'n aelodau o'r pwyllgor safonau gyfnod swydd o ddim mwy na'r cyfnod tan yr Etholiadau Llywodraeth Leol arferol nesaf ar ôl penodi'r Aelodau i'r Pwyllgor. Mae modd iddynt gael eu hail-benodi am un cyfnod dilynol arall.

iii. Bydd gan Aelod o'r Pwyllgor Safonau sy'n Aelod Cyngor Cymuned gyfnod swydd o ddim mwy na'r cyfnod tan yr etholiadau arferol nesaf i'r Cyngor Cymuned ar ôl iddo gael ei benodi i'r Pwyllgor Safonau. Mae modd iddo gael ei ail-benodi am un cyfnod dilynol arall.

(c) **Cworwm**. Ni fydd cworwm gan gyfarfod o'r pwyllgor safonau ond:

i. pan fo o leiaf tri aelod, gan gynnwys y cadeirydd, yn bresennol; a

ii. pan fo o leiaf hanner yr aelodau sy'n bresennol (gan gynnwys y cadeirydd) yn aelodau annibynnol

(Noder: Gweler (f) isod ynghylch pwy a all weithredu fel cadeirydd y cyfarfod)

(d) **Pleidleisio**. Bydd gan aelodau annibynnol ac aelodau cynghorau cymuned hawl i bleidleisio yn y cyfarfodydd;

(e) **Aelodau cynghorau cymuned**. Ni fydd aelod cyngor cymuned yn cymryd rhan yn nhrafodion y pwyllgor safonau pan fo unrhyw fater sy'n ymwneud â'i gyngor cymuned yn cael ei ystyried;

(f) **Cadeirio'r Pwyllgor.**

i. Rhaid i Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Safonau fod yn aelodau annibynnol
ii. Bydd y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn cael eu hethol gan aelodau'r Pwyllgor Safonau am gyfnod penodiad y person hwnnw fel aelod annibynnol gan y Cyngor
iii. At ddiben penderfynu a oes cworwm gan y pwyllgor, ystyr "y Cadeirydd" yw Cadeirydd y Pwyllgor Safonau neu yn absenoldeb y person hwnnw yr Is-gadeirydd ac yn absenoldeb y ddau berson hynny aelod annibynnol sy'n bresennol yn y cyfarfod a ddewisir gan aelodau'r pwyllgor sy'n bresennol yn y cyfarfod i lywyddu ar gyfer y cyfarfod hwnnw.

9.03 Cylch Gorchwyl

1. Hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan aelodau ac aelodau cyfetholedig yr awdurdod.

2. Cynorthwyo aelodau ac aelodau cyfetholedig yr awdurdod i gadw at god ymddygiad yr awdurdod.

3. Cynghori'r Cyngor ar fabwysiadu neu ddiwygio cod ymddygiad.

4. Monitro gweithrediad Cod Ymddygiad mabwysiedig y Cyngor ledled yr Awdurdod.

5. Hyfforddi cynghorwyr a chynghori ar faterion yn ymwneud ag ymddygiad yn gyffredinol.

6. Os yw statudau'n caniatáu hynny, trefnu gollyngiad i siarad a/neu bleidleisio os oes buddiant gan gynghorydd.

7. Cael a rhoi ar waith gyngor oddi wrth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru neu'r Bwrdd Safonau neu argymhellion oddi wrth y Panel Dyfarnu neu dribiwnlysoedd achosion.

8. Os yw statud yn caniatáu hynny, cael adroddiadau a chwynion ynghylch cynghorwyr, er mwyn cynnal neu oruchwylio ymchwiliadau priodol a gwneud argymhellion priodol i'r Cyngor.

9. Cael a gwrando cwynion a gyfeirir at y Pwyllgor o dan Brotocol Datrys Lleol y Cyngor a nodir yn Rhan 5 o Gyfansoddiad y Cyngor.

10. Cael adroddiadau ar ganlyniad materion disgyblu.

11. Goruchwylio trefn chwythu'r chwiban.

12. (a) Cael adroddiadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ynghylch honiadau o gamweinyddu neu honiadau o dorri cod ymddygiad a gwneud argymhellion priodol.

(b) Ystyried atgyfeirio adroddiad oddi wrth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i'r Pwyllgor Craffu priodol, lle y bu, ym marn y Pwyllgor Safonau, methiant difrifol yn y ffordd y cyflenwir gwasanaeth a fyddai'n elwa ar ragor o ystyriaeth gan y Pwyllgor Craffu priodol. Bydd adroddiad yn nodi'r rheswm dros ei atgyfeirio'n cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu perthnasol ynghyd â'r adroddiad oddi wrth yr Ombwdsmon. Bydd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau (neu enwebai) yn cael ei wahodd i fynd i gyfarfod y Pwyllgor Craffu perthnasol pan gaiff yr adroddiad ei gyflwyno.

13. Arfer unrhyw bwerau neu ddyletswyddau a roddir i neu a osodir ar Bwyllgorau Safonau o dro i dro gan ddeddfwriaeth.

14. Arfer mewn perthynas â chynghorau cymuned a'u haelodau yn ardal y Fwrdeistref Sirol y materion blaenorol hynny y mae Adran 56 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 yn ymdrin â hwy.

15. Ystyried atgyfeiriadau gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd o aelod(au) sy'n gwrthod dilyn yr hyfforddiant gorfodol neu sydd heb reswm da dros beidio â gallu dilyn hyfforddiant gorfodol fel y'i nodir ym Mhrotocol Hyfforddiant a Datblygiad Aelodau a nodir yn Rhan 5 o'r Cyfansoddiad hwn.

Noder: Gwneir darpariaeth o dan y Rheoliadau i alluogi'r Pwyllgor Safonau neu swyddog monitro gyda chytundeb ysgrifenedig ymlaen llaw gan Gadeirydd y Pwyllgor Safonau i

(a) atgyfeirio adroddiad o ymchwiliad camymddygiad i Bwyllgor Safonau awdurdod arall i'r pwyllgor hwnnw benderfynu arno a/neu

(b) atgyfeirio cais am ollyngiad i Bwyllgor Safonau awdurdod arall i'r pwyllgor hwnnw benderfynu arno.

9.04 Adroddiad Blynyddol

Cyn gynted â phosibl ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol, rhaid i'r Pwyllgor Safonau gyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cyngor.

Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys:-

(a) disgrifiad o sut mae'r Pwyllgor Safonau wedi cyflawni ei swyddogaethau;
(b) crynodeb o unrhyw adroddiadau ac argymhellion a gyfeiriwyd at y Pwyllgor Safonau o dan Bennod 3 o Ran 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000;
(c) crynodeb o'r camau y mae'r Pwyllgor Safonau wedi'u cymryd ar ôl ystyried yr adroddiadau a'r argymhellion y cyfeirir atynt yn (b) uchod;
(d) crynodeb o unrhyw hysbysiadau a roddwyd i'r Pwyllgor Safonau o dan Bennod 4 o Ran 4 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000;
(e) asesiad y Pwyllgor Safonau o'r graddau y mae arweinwyr grwpiau gwleidyddol ar y Cyngor wedi cydymffurfio â'u dyletswyddau i hybu a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan aelodau o'u grŵp ac i gydweithio â'r Pwyllgor Safonau wrth weithredu swyddogaethau'r Pwyllgor Safonau; ac
(f) unrhyw argymhellion y mae'r Pwyllgor Safonau yn ystyried ei bod yn briodol eu gwneud i'r Cyngor ynghylch unrhyw fater sy'n dod o fewn swyddogaethau'r Pwyllgor.

9.06 Cydbwyllgor Safonau

Caiff y Cyngor sefydlu cydbwyllgor safonau ag un neu ragor o awdurdodau lleol er mwyn cyflawni swyddogaethau statudol y Pwyllgor Safonau.

PWERAU A DDIRPRWYIR I'R PWYLLGOR

Pwerau dirprwyedig mewn perthynas ag unrhyw fater o fewn cylch gorchwyl y pwyllgor ac eithrio os yw hyn yn golygu gwariant lle nad oes cyllideb gymeradwy.

PWERAU A DDIRPRWYIR I SWYDDOGION

PŴER	DIRPRWYIR I
Yr holl faterion sy'n codi o'r gwaith o gyflawni cylch gorchwyl y Pwyllgor	Y Swyddog Monitro, y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth ar ôl ymgynghori â Chadeirydd neu Is-gadeirydd y Pwyllgor

Ceisiadau am ollyngiad

Bydd y weithdrefn ganlynol yn berthnasol

(a) rhaid i geisiadau am ollyngiad oddi wrth aelodau Cyngor y Fwrdeistref Sirol neu gymuned neu dref fod yn ysgrifenedig, oni fo hyn yn anymarferol, a rhaid iddynt nodi:-

(i) enw'r aelod;

(ii) natur y buddiant;
(iii) y sail i'r cais.

(b) bydd y Swyddog Monitro yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor Safonau am y cais neu os nad yw hyn yn bosibl gyda Chadeirydd neu Is-gadeirydd y pwyllgor ac un aelod annibynnol arall ac yn penderfynu ar y cais o dan bwerau dirprwyedig gan gymryd i ystyriaeth sylwadau a gyflwynir yn yr ymgynghoriad hwnnw, a rhoddir gwybod yn ysgrifenedig i'r cynghorydd dan sylw am y canlyniad;
(c) rhoddir gwybod i'r Pwyllgor Safonau er gwybodaeth am bob cais a'i ganlyniad sy'n cael ei benderfynu o dan bwerau dirprwyedig.

Mae'r seiliau statudol y gall Pwyllgor Safonau ganiatáu gollyngiad arnynt fel a ganlyn:-

(i) Os oes gan ddim llai na hanner aelodau'r awdurdod perthnasol neu hanner aelodau un o bwyllgorau'r awdurdod (yn ôl fel y digwydd) y mae'r busnes i gael ei ystyried ganddo fuddiant sy'n berthnasol i'r busnes hwnnw;

(ii) Os oes gan ddim llai na hanner aelodau gweithrediaeth arweinydd a chabinet yr awdurdod perthnasol y mae'r busnes i gael ei ystyried ganddo fuddiant sy'n berthnasol i'r busnes hwnnw a bod naill ai paragraff (iv) neu baragraff (v) hefyd yn berthnasol;

(iii) Yn achos cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol, os byddai anallu'r aelod i gymryd rhan yn tarfu ar gydbwysedd gwleidyddol yr awdurdod perthnasol neu'r pwyllgor o'r awdurdod y mae'r busnes i'w ystyried ganddo i'r fath raddau nes y byddai'r canlyniad yn debygol o gael ei effeithio;

(iv) Os yw natur buddiant yr aelod yn gyfryw fel na fyddai cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo yn niweidio hyder y cyhoedd yn y modd y mae busnes yr awdurdod perthnasol yn cael ei gynnal;

(v) Os yw'r buddiant yn gyffredin i'r aelod ac i gyfran arwyddocaol o'r cyhoedd;

(vi) Os oes cyfiawnhad i'r aelod gymryd rhan yn y busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo oherwydd rôl neu arbenigedd penodol yr aelod;

(vii) Os yw'r busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo i'w ystyried gan bwyllgor trosolwg a chraffu o'r awdurdod perthnasol ac nad yw buddiant yr aelod yn fuddiant ariannol;

(viii) Os yw'r busnes sydd i'w ystyried yn berthnasol i arian neu eiddo corff gwirfoddol y mae'r aelod yn aelod o'i bwyllgor neu ei fwrdd rheoli heblaw fel cynrychiolydd yr awdurdod perthnasol ac nad oes gan yr aelod unrhyw fuddiant arall yn y busnes hwnnw ar yr amod na fydd

unrhyw ollyngiad yn ymestyn i gymryd rhan mewn unrhyw bleidlais mewn perthynas â'r busnes hwnnw; neu

(ix) Os yw'n ymddangos i'r pwyllgor ei bod o les i drigolion ardal yr awdurdod perthnasol i'r anallu gael ei godi; neu

(x) Os yw'n ymddangos i'r Pwyllgor ei bod yn briodol fel arall caniatáu gollyngiad.

Noder: Rhaid i ollyngiad a ganiateir gan y Pwyllgor Safonau ar y seiliau a nodir ym mharagraff (x) uchod ac sy'n parhau i gael effaith, gael ei adolygu gan y Pwyllgor Safonau unwaith ym mhob cyfnod o 12 mis o'r dyddiad y caniateir y gollyngiad am y tro cyntaf.

Pan fydd yn ystyried adolygiad rhaid i'r Pwyllgor Safonau benderfynu a ddylai'r gollyngiad barhau i gael effaith.

Erthygl 10 – Trefniadau ar y Cyd

Cyfeiriadau:

Adrannau 2, 19, 20, Deddf Llywodraeth Leol 2000
Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Cyflawni Swyddogaethau) (Cymru) 2001 (Rhif 2287)
Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Cyflawni Swyddogaethau) (Diwygio) (Cymru) 2002 (Rhif 2941)
Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen) (Cymru) 2001
Pennod 4, Deddf Llywodraeth Leol 2000 Rhan II: Canllawiau i Gynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol yng Nghymru ar Drefniadau Gweithrediaeth, Gorffennaf 2001

10.01 Trefniadau ar y cyd

(a) Caiff y Cyngor sefydlu trefniadau ar y cyd gydag un neu fwy o awdurdodau lleol a/neu eu gweithrediaethau i arfer swyddogaethau nad ydynt yn swyddogaethau gweithrediaeth – mewn unrhyw un o'r awdurdodau sy'n cymryd rhan, neu gynghori'r Cyngor. Gall trefniadau o'r fath olygu penodi cyd-bwyllgor gyda'r awdurdodau lleol eraill hyn.

(b) Caiff y weithrediaeth sefydlu trefniadau ar y cyd gydag un neu fwy o awdurdodau lleol i arfer swyddogaethau sy'n swyddogaethau gweithrediaeth. Gall trefniadau o'r fath olygu penodi cyd-bwyllgorau gyda'r awdurdodau lleol eraill hyn.

(c) Caiff y weithrediaeth benodi aelodau sy'n aelodau o'r weithrediaeth neu nad ydynt yn aelodau o'r weithrediaeth i gyd-bwyllgor ac nid oes angen i'r aelodau hynny adlewyrchu cyfansoddiad gwleidyddol yr awdurdod lleol cyfan.

(d) Caiff y weithrediaeth benodi aelodau i gyd-bwyllgor o'r tu allan i'r weithrediaeth os oes gan y cyd-bwyllgor swyddogaethau am ran o ardal yr awdurdod yn unig, a bod yr ardal honno yn llai na dau bumed o'r awdurdod yn ôl arwynebedd neu boblogaeth. Mewn achosion o'r fath, caiff y weithrediaeth benodi i'r cyd-bwyllgor unrhyw gynghorydd sy'n aelod dros adran etholiadol a gynhwysir yn gyfan gwbl neu yn rhannol o fewn yr ardal. Nid yw'r gofynion ynghylch cydbwysedd gwleidyddol yn berthnasol i benodiadau o'r fath.

(e) Ceir manylion am unrhyw drefniadau ar y cyd gan gynnwys unrhyw ddirprwyo i gyd-bwyllgorau yng nghynllun dirprwyo'r Cyngor yn Rhan 5 o'r Cyfansoddiad hwn.

10.02 Mynediad at wybodaeth

(a) Mae'r Rheolau Mynediad at Wybodaeth yn Rhan 4 o'r Cyfansoddiad hwn yn berthnasol.

(b) Os yw holl aelodau cyd-bwyllgor yn aelodau o'r weithrediaeth ym mhob un o'r awdurdodau sy'n cymryd rhan yna mae ei drefn mynediad at wybodaeth yr un peth â honno sy'n berthnasol i'r weithrediaeth.

(c) Os oes gan y cyd-bwyllgor aelodau nad ydynt yn aelodau o weithrediaeth unrhyw un o'r awdurdodau sy'n cymryd rhan yna bydd y rheolau ar fynediad at wybodaeth yn Rhan VA o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn berthnasol.

10.03 Dirprwyo i ac o awdurdodau lleol eraill

(a) Caiff y Cyngor ddirprwyo swyddogaethau i awdurdod lleol arall neu, o dan rai amgylchiadau penodol, gweithrediaeth awdurdod lleol arall.

(b) Caiff y weithrediaeth ddirprwyo swyddogaethau gweithrediaeth i awdurdod lleol arall neu weithrediaeth awdurdod lleol arall o dan rai amgylchiadau penodol.

(c) Bydd y penderfyniad i dderbyn dirprwyo o awdurdod lleol arall neu beidio yn cael ei gadw yn ôl at gyfarfod y Cyngor.

10.04 Contractio allan

Caiff y Cyngor gontractio allan, i gorff neu sefydliad arall, swyddogaethau y caiff swyddog eu harfer ac sy'n ddarostyngedig i orchymyn o dan adran 70 o Ddeddf Dadreoleiddio a Chontractio Allan 1994, neu o dan drefniadau contractio lle mae'r contractwr yn gweithredu fel asiant y Cyngor o dan egwyddorion contractio arferol, ar yr amod na chaiff gwaith penderfynu disgresiynol y Cyngor ei ddirprwyo mewn unrhyw ffordd.

Erthygl 11 – Cydbwyllgorau Corfforedig

11 CYD-BWYLLGORAU CORFFOREDIG

11.01 Rhagymadrodd

Gellir sefydlu cydbwyllgorau corfforedig: -

11.01.1 ar anogaeth Gweinidogion Cymru, i ymgymryd â swyddogaethau'r Cyngor o ran trafnidiaeth, cynllunio strategol, datblygu economaidd a/neu wella addysg; neu

11.01.2 ar anogaeth y Cyngor, i ymgymryd ag unrhyw un neu ragor o swyddogaethau'r Cyngor.

11.02 Cyd-bwyllgorau Corfforedig

11.02.1 Caiff y Cyngor, ar y cyd ag un neu ragor o awdurdodau lleol eraill, wneud cais ar gyfer cydbwyllgor i Weinidogion Cymru, yn gofyn iddynt ystyried gwneud rheoliadau o dan adran 72 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i sefydlu cydbwyllgor corfforedig i arfer un o swyddogaethau'r awdurdodau hynny neu'r swyddogaeth llesiant economaidd mewn perthynas â phrif feysydd yr awdurdodau hynny.

11.02.2 Ni fydd y Cyngor yn gwneud cais o'r fath oni bai a hyd nes y bydd wedi ymgynghori â: -

11.02.2.1 pobl leol yn ardal y Cyngor;

11.02.2.2 cynghorau cymuned yn ardal y Cyngor;

11.02.2.3 y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus;

11.03.1 pob undeb llafur a gydnabyddir (o fewn ystyr Deddf Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992) gan y Cyngor; ac

11.04.1 unrhyw bersonau eraill y mae'r Cyngor yn eu hystyried yn briodol.

11.05.1 Caiff y Cyngor, ar y cyd â'r holl awdurdodau lleol eraill ar gyfer y prif ardaloedd mewn ardal cydbwyllgor corfforedig, wneud cais i Weinidogion Cymru yn gofyn iddynt ystyried gwneud rheoliadau o dan adran 80 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i ddiwygio neu ddirymu rheoliadau cydbwyllgor sy'n sefydlu cydbwyllgor corfforedig y mae'r Cyngor yn aelod ohono.

11.06.1 Ni chaiff y Cyngor arfer y pŵer yn adran 11.2.3 i ofyn i Weinidogion Cymru ddiwygio rheoliadau cydbwyllgorau corfforedig er mwyn hepgor neu addasu swyddogaeth sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Cyngor o ran trafnidiaeth, cynllunio strategol, datblygu economaidd neu wella addysg.

Erthygl 12 – Swyddogion

Bydd contractau i'r holl swyddogion gyda'r awdurdod yn hytrach nag, mewn cyfansoddiadau gweithrediaeth, y weithrediaeth. Bydd yr holl swyddogion yn ddarostyngedig i'r un cod ymddygiad fel rhan o'u hamodau gwasanaeth.

Ystyr "swyddogion" yw'r holl gyflogeion a staff sydd wedi'u cymryd ymlaen gan y Cyngor i gyflawni ei swyddogaethau. Mae'r gair hwn hefyd wedi cael ei ddefnyddio yn lle "cyflogeion" i gynnwys y rheiny sy'n cael eu cymryd ymlaen dros dymor byr, trwy asiantaeth ac mewn sefyllfaoedd eraill lle nad ydynt wedi'u cyflogi.

Cyfeiriadau:

Pennod 2 a 4, Deddf Llywodraeth Leol 2000 Rhan II: Canllawiau i Gynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol yng Nghymru ar Drefniadau Gweithrediaeth, Gorffennaf 2001

12.01

(a) **Cyffredinol.** Caiff y Cyngor llawn gymryd ymlaen unrhyw staff (y cyfeirir atynt fel swyddogion) ag y mae'n ystyried yn angenrheidiol i gyflawni ei swyddogaethau. Mae rhwymedigaethau statudol (e.e. lechyd a Diogelwch) sy'n berthnasol i holl swyddogion yr Awdurdod.

Swydd	Swyddogaethau a meysydd cyfrifoldeb
Prif Weithredwr (a Phennaeth Gwasanaeth Cyflogedig)	• Cyfrifoldeb rheoli corfforaethol a gweithredol cyffredinol (gan gynnwys cyfrifoldeb rheoli cyffredinol am yr holl swyddogion); • Darparu cyngor proffesiynol a diduedd i'r holl bartïon yn y broses o wneud penderfyniadau, y weithrediaeth, pwyllgorau trosolwg a chraffu, y Cyngor llawn a phwyllgorau eraill; • Ynghyd â'r swyddog monitro, cyfrifoldeb am system cadw cofnodion ar gyfer holl benderfyniadau'r awdurdod (gweithredol neu fel arall); • Cynrychioli'r awdurdod mewn cyrff partneriaethol ac allanol (fel sy'n ofynnol gan statud neu'r Cyngor); a • Gwasanaethu'r Cyngor cyfan mewn modd sy'n niwtral yn wleidyddol.
Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol	Cynorthwyo'r Prif Weithredwr a rheoli gwasanaethau cyfadrannau cytunedig gan gynnwys Archwilio, Cyllid Corfforaethol, TG, Cyfreithiol, Personél, Gwasanaethau Eiddo, Rheoli Asedau Corfforaethol, Perfformiad, goruchwylio'r swyddogaeth Polisi a Gwasanaethau Canolog, swyddogaethau'r Swyddog Monitro a Chaffael, Tai Cyhoeddus a

	Phreifat. Addysg, addysg gymunedol, a llyfrgelloedd, Gwasanaeth Ieuenctid a Chanolfannau Cymunedol
Cyfarwyddwr Corfforaethol yr Economi a'r Amgylchedd	• Priffyrdd, Peirianneg Cludiant, Cynllunio (rheoli a strategol) Arlwyo a Glanhau • Cofrestrwyr Genedigaethau, Marwolaethau a Phriodasau a Phartneriaethau Sifil • Cynllunio at Argyfwng • Claddedigaethau, Mynwentydd a Gwasanaethau Profedigaeth • Iechyd yr Amgylchedd a Chymunedol a Safonau Masnach • Trwyddedu • Diogelwch Cymunedol • Trosolwg ar Ddatblygu Economaidd • Cyfleusterau Hamdden a Chymunedol
Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai	• Gwasanaethau cymdeithasol a lles i blant ac oedolion.

(b) **Pennaeth gwasanaeth cyflogedig, swyddog monitro a phrif swyddog cyllid (Swyddog Adran 151).** Bydd y Cyngor yn dynodi'r swyddi canlynol fel y dangosir:

Swydd	**Dynodiad**
Prif Weithredwr	Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig
Swyddog Monitro	Swyddog Monitro
Pennaeth Cyllid Corfforaethol	Swyddog Adran 151
Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd	Dirprwy Swyddog Monitro

Bydd gan y swyddi hyn y swyddogaethau a ddisgrifir yn Erthygl 12.02–12.04 isod.

(c) **Strwythur**. Bydd y pennaeth gwasanaeth cyflogedig yn pennu ac yn cyhoeddi disgrifiad o strwythur cyffredinol adrannau'r Cyngor gan ddangos y strwythur rheoli a lleoliad swyddogion. Nodir hyn yn Rhan 7 o'r Cyfansoddiad hwn.

12.02 Swyddogaethau'r Prif Weithredwr

1.1.1 Cyflawni Swyddogaethau'ry Cyngor

Mae Adran 4 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau i ddynodi un o'u swyddogion yn Bennaeth Gwasanaeth Cyflogedig. Bydd y Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig yn adrodd i'r Cyngor Llawn ar y modd y mae gwaith cyflawni swyddogaethau'r Cyngor yn cael ei gydlynu, nifer a gradd y Staff sydd eu hangen i gyflawni swyddogaethau, trefniadaeth staff yr awdurdod, a phenodi a gwaith rheoli priodol staff yr awdurdod.

(a) **Cyflawni swyddogaethau'r Cyngor**. Bydd y pennaeth gwasanaeth cyflogedig yn adrodd i'r Cyngor llawn am y ffordd y mae'r gwaith o gyflawni swyddogaethau'r Cyngor yn cael ei gydgysylltu, nifer a graddau'r swyddogion mae eu hangen i gyflawni'r swyddogaethau a threfniadaeth swyddogion.

(b) **Cyfyngiadau ar swyddogaethau**. Ni chaiff y pennaeth gwasanaeth cyflogedig fod yn swyddog monitro ond caiff ddal swydd prif swyddog cyllid os yw'n gyfrifydd cymwysedig.

(c) **Gweithredu fel un o Gynrychiolwyr y Cyngor ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus**. Bydd y Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig yn un o ddau gynrychiolydd y Cyngor yng nghyfarfodydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

12.03 Swyddogaethau'r swyddog monitro

Cyfeiriadau:

Adran 5, Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989
Adrannau 68 – 73; 78 - 80, Deddf Llywodraeth Leol 2000
Pennod 2, Deddf Llywodraeth Leol 2000 Rhan II: Canllawiau i Gynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol yng Nghymru ar Drefniadau Gweithrediaeth, Gorffennaf 2001

(a) **Cynnal y Cyfansoddiad.** Bydd y swyddog monitro yn cadw fersiwn gyfredol o'r Cyfansoddiad ac yn sicrhau ei bod ar gael yn helaeth i aelodau, staff a'r cyhoedd ei gweld.

(b) **Sicrhau cyfreithlondeb a thegwch y gwaith o wneud penderfyniadau.** Ar ôl ymgynghori â'r pennaeth gwasanaeth cyflogedig a'r prif swyddog cyllid, bydd y swyddog monitro yn adrodd i'r Cyngor llawn (neu'r weithrediaeth mewn perthynas â swyddogaeth gweithrediaeth) os yw'n barnu y byddai unrhyw gynnig, penderfyniad neu hepgoriad yn achosi anghyfreithlondeb neu os yw unrhyw benderfyniad neu hepgoriad wedi achosi camweinyddiad. Effaith adroddiad o'r fath fydd atal y cynnig neu'r penderfyniad rhag cael ei weithredu hyd nes y bydd yr adroddiad wedi cael ei ystyried.

(c) **Cynorthwyo'r Pwyllgor Safonau.** Bydd y swyddog monitro yn cyfrannu at y gwaith o hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel trwy ddarparu cymorth i'r Pwyllgor Safonau.

(d) **Cael adroddiadau.** Bydd y swyddog monitro yn cael ac yn gweithredu ar adroddiadau a gyflwynir gan yr Ombwdsmon a phenderfyniadau tribiwnlysoedd achosion.

(e) **Cynnal ymchwiliadau**. Bydd y swyddog monitro yn cynnal ymchwiliadau i faterion a atgyfeirir gan yr Ombwdsmon ac yn cyflwyno adroddiadau neu'n gwneud argymhellion yn eu cylch i'r Pwyllgor Safonau.

(f) **Swyddog priodol ar gyfer mynediad at wybodaeth.** Bydd y swyddog monitro yn sicrhau bod penderfyniadau'r weithrediaeth, ynghyd â'r rhesymau dros y penderfyniadau hynny ac adroddiadau swyddogion perthnasol a phapurau cefndir, ar gael i'r cyhoedd cyn gynted ag y bo modd.

(g) **Cynghori ynghylch a yw penderfyniadau'r weithrediaeth yn unol â'r gyllideb a'r fframwaith polisi.** Bydd y swyddog monitro yn cynghori ynghylch a yw penderfyniadau'r weithrediaeth yn unol â'r gyllideb a'r fframwaith polisi.

(h) **Darparu cyngor.** Bydd y swyddog monitro yn darparu cyngor ar gwmpas pwerau ac awdurdod i wneud penderfyniadau, camweinyddiad, amhriodoldeb ariannol, uniondeb a materion yn ymwneud â'r gyllideb a'r fframwaith polisi i'r holl gynghorwyr.

(i) **Cyfyngiadau ar swyddi.** Ni chaiff y swyddog monitro fod yn brif swyddog cyllid nac yn Brif Weithredwr.

12.04 Swyddogaethau'r prif swyddog cyllid (Swyddog Adran 151)

Cyfeiriad:

Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972.

(a) **Sicrhau cyfreithlondeb a doethineb ariannol y gwaith o wneud penderfyniadau.** Ar ôl ymgynghori â'r pennaeth gwasanaeth cyflogedig a'r swyddog monitro, bydd y prif swyddog cyllid yn adrodd i'r Cyngor llawn neu'r weithrediaeth mewn perthynas â swyddogaeth gweithrediaeth ac archwilydd allanol y Cyngor os yw'n barnu y bydd unrhyw gynnig, penderfyniad neu weithred yn golygu gwario anghyfreithlon, neu ei fod yn anghyfreithlon ac yn debyg o achosi colled neu ddiffyg neu os yw'r Cyngor ar fin cofnodi eitem yn y cyfrifon yn anghyfreithlon.

(b) **Gweinyddu materion ariannol.** Bydd gan y prif swyddog cyllid gyfrifoldeb am weinyddu materion ariannol y Cyngor.

(c) **Cyfrannu at y gwaith rheoli corfforaethol.** Bydd y prif swyddog cyllid yn cyfrannu at waith rheoli corfforaethol y Cyngor, yn benodol trwy ddarparu cyngor ariannol proffesiynol.

(d) **Darparu cyngor.** Bydd y prif swyddog cyllid yn darparu cyngor ar gwmpas pwerau ac awdurdod i wneud penderfyniadau, camweinyddiad, amhriodoldeb ariannol, uniondeb a materion yn ymwneud â'r gyllideb a'r fframwaith polisi i'r holl gynghorwyr a swyddogion yn eu rolau hwythau.

(e) **Rhoi gwybodaeth ariannol.** Bydd y prif swyddog cyllid yn darparu gwybodaeth ariannol i'r cyfryngau, y cyhoedd a'r gymuned.

12.05 Cyfyngiadau ar Swyddi

(a) Ni chaiff y Prif Swyddog Cyllid fod yn Swyddog Monitro nac yn Bennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

(b) Rhaid i'r Prif Swyddog Cyllid fod yn aelod o un neu ragor o'r cyrff proffesiynol a ganlyn:-
   (i) Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr;
   (ii) Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig;
   (iii) Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth;
   (iv) Sefydliad Siartredig y Cyfrifwyr Rheoli; neu
   (v) unrhyw gorff arall o gyfrifwyr a sefydlwyd yn y Deyrnas Unedig ac sydd, am y tro, wedi'i gymeradwyo gan Weinidogion Cymru at y diben hwn.

12.06 Dyletswydd i ddarparu adnoddau digonol i'r swyddog monitro a'r prif swyddog cyllid

Bydd y Cyngor yn darparu i'r swyddog monitro a'r prif swyddog cyllid unrhyw swyddogion, adeiladau ac adnoddau eraill sydd, yn eu barn hwy, yn ddigonol i ganiatáu i'w dyletswyddau gael eu cyflawni.

12.07 Swyddogaethau'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd

(a) Cyflawni'r cyfrifoldebau a geir yn Adran 9 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

(b) Adolygu digonolrwydd darpariaeth yr Awdurdod o staff, adeiladau ac adnoddau eraill i gyflawni swyddogaethau'r gwasanaethau democrataidd.

(c) Cyflwyno adroddiadau a gwneud argymhellion i'r Awdurdod mewn perthynas â'r ddarpariaeth honno.

(d) Cyflawni dyletswyddau fel sy'n ofynnol o dan Reoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2013.

Rhaid i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd beidio â bod:

(a) yn Brif Weithredwr yr Awdurdod, y Swyddog Monitro na'r Prif Swyddog Cyllid.

12.08 Ymddygiad

Bydd yr holl Swyddogion yn cydymffurfio â'r Cod Ymddygiad Swyddogion a'r Protocol ar Gysylltiadau rhwng Swyddogion ac Aelodau a nodir yn Rhan 5 o'r Cyfansoddiad hwn.

12.09 Cyflogaeth

Bydd y gwaith o recriwtio, dethol a diswyddo swyddogion yn cydymffurfio â'r Rheolau Cyflogaeth Swyddogion a nodir yn Rhan 4 o'r Cyfansoddiad hwn.

Erthygl 13 – Gwneud Penderfyniadau

Mae cyfansoddiadau newydd a sefydlwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 yn newid sail y gwaith o wneud penderfyniadau mewn awdurdodau lleol yn sylfaenol. Maent yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gofnodi a chadw'n gyfredol fanylion pwy sydd â chyfrifoldeb am ba benderfyniadau, a sicrhau bod hyn ar gael i'r cyhoedd. Maent hefyd yn newid y ffordd y rhoddir cyhoeddusrwydd i wybodaeth am benderfyniadau arfaethedig a'r ffyrdd y caiff penderfyniadau'r weithrediaeth eu cofnodi.

13.01 Cyfrifoldeb am wneud penderfyniadau

Bydd y Cyngor yn cyhoeddi ac yn cadw'n gyfredol gofnod o ba ran o'r Cyngor neu unigolyn sydd â chyfrifoldeb am fathau penodol o benderfyniadau neu am benderfyniadau sy'n ymwneud â meysydd neu swyddogaethau penodol. Nodir y cofnod hwn yn Rhan 3 o'r Cyfansoddiad hwn.

13.02 Egwyddorion gwneud penderfyniadau

Bydd yr holl benderfyniadau gan y Cyngor yn cael eu gwneud yn unol â'r egwyddorion canlynol:

(a) cymesuredd (h.y. rhaid i'r weithred fod yn gymesur â'r canlyniad a ddymunir);

(b) ymgynghori priodol a chael cyngor proffesiynol gan swyddogion;

(c) parch at hawliau dynol;

(d) rhagdybiaeth o blaid bod yn agored;

(e) eglurder nodau a chanlyniadau a ddymunir; ac

(f) y gwneir penderfyniadau yn unol â'r fframwaith polisi, yn arbennig mewn perthynas â datblygu cynaliadwy a *chydraddoldeb*.

13.03 Penderfyniadau a gedwir yn ôl i'r Cyngor llawn

Bydd penderfyniadau yn ymwneud â'r swyddogaethau a restrir yn Erthygl 4.02 yn cael eu gwneud gan y Cyngor llawn ac ni fyddant yn cael eu dirprwyo.

13.04 Gwneud penderfyniadau gan y Cyngor llawn

Yn ddarostyngedig i Erthygl 13.07, bydd y weithrediaeth yn dilyn Rheolau Gweithdrefnau'r Cyngor a nodir yn Rhan 4 o'r Cyfansoddiad hwn wrth ystyried unrhyw fater.

13.05 Gwneud penderfyniadau gan y weithrediaeth

Yn ddarostyngedig i Erthygl 13.07, bydd y weithrediaeth yn dilyn Rheolau Gweithdrefnau'r Weithrediaeth a nodir yn Rhan 4 o'r Cyfansoddiad hwn wrth ystyried unrhyw fater.

13.06 Gwneud penderfyniadau gan gyrff y Cyngor sy'n gweithredu fel tribiwnlysoedd

Bydd llawer o swyddogaethau trwyddedu a gorfodi pwyllgorau arferol yn golygu y byddant yn gweithredu mewn modd "lled-farnwrol".

Bydd y Cyngor, cynghorydd neu swyddog sy'n gweithredu fel tribiwnlys neu mewn modd lled-farnwrol neu sy'n penderfynu/ystyried (heblaw at ddibenion rhoi cyngor) ar hawliau a rhwymedigaethau sifil neu gyfrifoldeb troseddol unrhyw berson, yn dilyn gweithdrefn briodol sy'n cyd-fynd â gofynion cyfiawnder naturiol a'r hawl i gael prawf teg a geir yn Erthygl 6 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

Noder: Mae'r egwyddorion a nodir uchod hefyd yn berthnasol os caiff y pwerau eu harfer gan swyddogion o dan eu pwerau dirprwyedig.

13.07 Craffu ar benderfyniadau o dan bwerau dirprwyedig swyddog

Bydd penderfyniadau a wneir o dan bwerau dirprwyedig swyddog yn y categorïau canlynol yn cael eu cofnodi yn ysgrifenedig a'u hysbysu i'r aelodau trwy Fwletin Gwybodaeth. Gall y rhain fod yn destun craffu yn unol ag Erthygl 6.

(a) Materion nad ydynt o fewn cyllidebau a gymeradwywyd neu o fewn polisïau'r Cyngor a gymeradwywyd;

(b) Materion yn ymwneud â datblygu polisïau neu gyllidebau i'r Awdurdod;

(c) Rhywbeth sy'n effeithio'n sylweddol ar y gwaith o ddarparu gwasanaeth y mae penderfyniad wedi cael ei wneud yn ei gylch.

(d) Materion sydd, ar ôl ymgynghori, wedi cynhyrchu ymatebion sy'n groes i'r penderfyniad a wnaethpwyd gan y swyddog;

(e) Gwerthu, prynu neu brydlesu neu waredu mewn ffordd arall dir neu eiddo y mae'r Protocol ar Waredu Eiddo yn gwneud adroddiad arno yn ofynnol.

Bydd materion yng nghategorïau (a) i (e) yn cael eu cofnodi yn y Bwletin Gwybodaeth a gellir dod â hwy gerbron Pwyllgor Craffu yn unol ag Erthygl 6.

Erthygl 14 – Cyllid, Contractau a Materion Cyfreithiol

Cyfeiriadau:

Adrannau 135, 151, 223 a 234, Deddf Llywodraeth Leol 1972
Rhan VIII, Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988

14.01 Rheoli ariannol

Bydd y gwaith o reoli materion ariannol y Cyngor yn cael ei gyflawni yn unol â'r rheolau ariannol a nodir yn Rhan 4 o'r Cyfansoddiad hwn.

14.02 Contractau

Bydd pob contract a wneir gan y Cyngor yn cydymffurfio â'r Rheolau Gweithdrefnau Contractau a nodir yn Rhan 4 o'r Cyfansoddiad hwn.

14.03 Achosion cyfreithiol

Mae'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol wedi'i awdurdodi i gychwyn, amddiffyn neu gymryd rhan mewn unrhyw achosion cyfreithiol mewn unrhyw achos lle bo gweithredu o'r fath yn angenrheidiol er mwyn rhoi penderfyniadau'r Cyngor ar waith neu mewn unrhyw achos lle bo'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol yn barnu bod gweithredu o'r fath yn angenrheidiol er mwyn gwarchod buddiannau'r Cyngor.

14.04 Dilysu dogfennau

Os yw unrhyw ddogfen yn angenrheidiol i unrhyw weithdrefn gyfreithiol neu achosion cyfreithiol ar ran y Cyngor, bydd yn cael ei llofnodi gan y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol neu berson arall sydd wedi'i awdurdodi ganddo, oni fo unrhyw ddeddf yn awdurdodi neu'n mynnu fel arall, neu bo'r Cyngor wedi rhoi awdurdod gofynnol i ryw berson arall.

14.05 Sêl Gyffredin y Cyngor

Bydd Sêl Gyffredin y Cyngor yn cael ei chadw mewn lle diogel yng ngofal y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol. Bydd penderfyniad gan y Cyngor neu unrhyw ran ohono, yn awdurdod digonol dros selio unrhyw ddogfen mae ei hangen i roi'r penderfyniad ar waith. Bydd y Sêl Gyffredin yn cael ei hatodi i'r dogfennau hynny y dylid, ym marn y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, eu selio. Bydd atodi'r Sêl Gyffredin yn cael ei ardystio gan y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol neu'r Prif Weithredwr neu ryw berson arall sydd wedi'i awdurdodi gan y Cyngor.

Erthygl 15 – Adolygu a Diwygio'r Cyfansoddiad

Cyfeiriadau:

Adrannau 30 a 37, Deddf Llywodraeth Leol 2000
Pennod 7 a 8, Deddf Llywodraeth Leol 2000 Rhan II: Canllawiau i Gynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol yng Nghymru ar Drefniadau Gweithrediaeth, Gorffennaf 2001

15.01 Dyletswydd i fonitro ac adolygu'r cyfansoddiad

Bydd y Swyddog Monitro yn monitro ac adolygu gweithrediad y Cyfansoddiad er mwyn sicrhau y rhoddir nodau ac egwyddorion y Cyfansoddiad ar waith yn llawn.

15.02 Protocol ar gyfer monitro ac adolygu'r cyfansoddiad gan y swyddog monitro

Un o brif rolau'r swyddog monitro yw bod yn ymwybodol o gryfderau a gwendidau'r Cyfansoddiad a fabwysiadwyd gan y Cyngor, a gwneud argymhellion ar gyfer ffyrdd y gellid ei ddiwygio er mwyn cyflawni'n well y dibenion a nodir yn Erthygl 1. Wrth gyflawni'r dasg hon, caiff y swyddog monitro:

(a) arsylwi ar gyfarfodydd gwahanol rannau o'r strwythur aelodau a swyddogion;

(b) cyflawni trywydd archwilio ar sampl o benderfyniadau;

(c) cofnodi a dadansoddi materion a godir gydag ef gan aelodau, swyddogion, y cyhoedd a rhanddeiliaid perthnasol eraill; a

(d) chymharu arferion yn yr awdurdod hwn ag arferion mewn awdurdodau tebyg eraill, neu enghreifftiau cenedlaethol o arfer da.

15.03 Newid os oes math Cabinet o Weithrediaeth.

Ni fydd newidiadau i'r cyfansoddiad yn cael eu cymeradwyo gan y Cyngor llawn ond ar ôl i'r Swyddog Monitro ystyried y cynnig.

Erthygl 16 – Atal Dros Dro, Dehongli a Chyhoeddi'r Cyfansoddiad

16.01 Atal y Cyfansoddiad dros dro

Mae'r Erthygl hon yn sicrhau na cheir atal erthyglau'r Cyfansoddiad dros dro. Mae hyn yn rhoi sicrwydd a sefydlogrwydd i'r agweddau sylfaenol ar lywodraethiant y Cyngor. Fodd bynnag, mae'n darparu ar gyfer atal rheolau gweithdrefnau dros dro ar yr amod mai diben hyn yw sicrhau effaith sy'n gyson â dibenion y Cyfansoddiad a nodir yn Erthygl 1. Gallai hyn fod yn berthnasol, er enghraifft, i reolau trafodaeth mewn cyfarfod o'r Cyngor os yw amgylchiadau penodol yn codi.

(a) **Terfyn i atal dros dro**. Ni cheir atal Erthyglau'r Cyfansoddiad hwn dros dro. Caiff y Cyngor llawn atal y Rheolau Gweithdrefnau dros dro i'r graddau a ganiateir gan y Rheolau hynny a'r gyfraith.

(b) **Gweithdrefn atal dros dro**. Nodir hon yn Rheolau Gweithdrefnau'r Cyngor yn Rhan 4.

16.02 Dehongli

Ni fydd dyfarniad Cadeirydd y Cyngor ynghylch dehongli neu gymhwyso'r Cyfansoddiad hwn neu ynghylch gweithrediadau'r Cyngor yn cael ei herio mewn unrhyw gyfarfod o'r Cyngor. Bydd dehongliad o'r fath yn rhoi sylw i ddibenion y Cyfansoddiad hwn a geir yn Erthygl 1.

16.03 Cyhoeddi

(a) Bydd y Prif Weithredwr yn darparu fersiwn electronig o'r Cyfansoddiad hwn i bob aelod o'r awdurdod ar ôl cael datganiad derbyn swydd yr unigolyn hwnnw ar ôl i'r aelod gael ei ethol yn gyntaf i'r Cyngor.

(b) Bydd y Prif Weithredwr yn sicrhau bod copïau ar gael i'w gweld yn swyddfeydd y Cyngor ac mewn llyfrgelloedd a lleoliadau priodol eraill, ac y gall aelodau o'r wasg leol a'r cyhoedd eu prynu o dalu ffi resymol.

(c) Bydd y Swyddog Monitro yn sicrhau bod y crynodeb o'r Cyfansoddiad ar gael yn helaeth yn yr ardal ac y caiff ei ddiweddaru yn ôl yr angen.

Atodlen 1: Disgrifiad o'r Trefniadau Gweithrediaeth

Y rhannau canlynol o'r Cyfansoddiad hwn yw'r trefniadau gweithrediaeth:

1. Erthygl 6 o Ran 2 (pwyllgorau Trosolwg a Chraffu) a'r Rheolau Gweithdrefnau Trosolwg a Chraffu;

2. Erthygl 7 o Ran 2 (Y Weithrediaeth) a Rheolau Gweithdrefnau'r Weithrediaeth;

3. Erthygl 13 o Ran 2 (Gwneud penderfyniadau) a'r Rheolau Gweithdrefnau Mynediad at Wybodaeth;

4. Rhan 3 (Cyfrifoldebau am Swyddogaethau).